

Coleg Gwent

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

2022 - 2023

# ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS


## RHEOLWYR ALLWEDDOL, BWRDD LLYWODRAETHWYR A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Diffinnir Rheolwyr Allweddol fel aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli (SLT) ac fe'u cynrychiolwyd fel a ganlyn yn 2022/23:




Ceir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalen 30 o'r datganiadau ariannol hyn. Gweithredodd Mrs Marie Carter fel Swyddog Llywodraethiant drwy gydol y cyfnod.

Dyma gynghorwyr proffesiynol a bancwyr y Coleg ar gyfer y cyfnod:



# CYNNWYS


| EITEM | TUDALEN |
|---|---|
| Adolygiad o 2022/23 | 1 |
| Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Coleg ag amodau a thelerau cyllido gan Lywodraeth Cymru. | 25 |
| Datganiad ar Lywodraethiant Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol | 26 |
| Datganiad ar Gyfrifoldebau Aelodau o'r Corff Llywodraethu | 37 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 39 |
| Datganiad ar Incwm Cynhwysfawr | 42 |
| Datganiad ar Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn | 43 |
| Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023 | 44 |
| Datganiad ar Lifau Arian | 46 |
| Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol | 47 |

## ADOLYGIAD O 2022/23

Mae ein Corff Llywodraethu yn falch o gyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023. Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, Datganiad o'r Arfer a Argymhellir Addysg Bellach ac Uwch (SORP) a Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru (LLC).

## EIN STATWS CYFREITHIOL

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, at ddibenion cynnal busnes Coleg Trydyddol Gwent. Mae Coleg Gwent yn cael ei ystyried yn elusen a eithrir at ddibenion Deddf Elusennau 2011.

Ymgorfforwyd y Gorfforaeth fel Coleg Trydyddol Gwent. Ar 1 Ionawr 2000, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd i'r Gorfforaeth newid enw'r Coleg i Coleg Gwent, sef enw yr ystyriwyd iddo gynnig gwell cynrychiolaeth o'r ystod eang o ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg.

## ADOLYGIAD STRATEGOL

Mae ein cyfeiriad strategol wedi'i nodi yn ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth sy'n llywio cynnwys Cynllun Strategol ein Coleg.

### Cenhadaeth

*Newid bywydau drwy ddysgu*

### Gweledigaeth

*Erbyn 2026, Coleg Gwent fydd y Coleg o ddewis, yn gweithio'n weithredol â'n cymunedau, lle mae'r holl ddysgwyr a staff yn cael eu trin â pharch, yn cyflawni eu llawn botensial ac yn elwa o'r adnoddau gorau mewn amgylchedd dysgu ysbrydoledig.*

Gyrrir y cyfeiriad strategol a osodir gan y Gorfforaeth gan anghenion ein dysgwyr.

Mae'r coleg wedi ymrwymo'n llawn i wrando ar ddysgwyr er mwyn sicrhau gwella ansawdd a llais y dysgwr yn rhan hanfodol o strategaeth ansawdd y coleg. Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn natblygiad y coleg.

Drwy gydol y pandemig a hyd yma, mae'r sector Addysg Bellach wedi cael budd o gefnogaeth ariannol ardderchog gan Lywodraeth Cymru. Mae'r coleg wedi cyfarwyddo'r ariannu hwn yn briodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr wedi cael eu cefnogi'n dda o ran eu prif raglenni astudio a llesiant.

Mae ein Cynllun Strategol yn cael ei gefnogi gan nifer o strategaethau maes penodol, gyda phob un yn cael ei roi ar waith a'i fonitro'n rheolaidd drwy'r Cynllun Gweithrediad Strategol. Mae monitro yn cael ei wneud drwy Gyfarfodydd Uwch Reolwyr misol, rheolaidd a thrwy'r Corff Llywodraethu a'i is-bwyllgorau.

Mae'r Coleg wedi cytuno ar gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol sy'n mesur llwyddiant wrth roi ein dyheadau strategol ar waith.

**Budd y Cyhoedd**

Mae’r Coleg yn elusen eithriedig ac yn cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru fel y Prif Reoleiddiwr ar gyfer pob Corfforaeth Addysg Bellach yng Nghymru. Gweler aelodau'r Gorfforaeth, sy'n ymddiriedolwyr o'r elusen, ar dudalen 30. Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae’r Gorfforaeth yn parchu canllawiau’r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn enwedig ei ganllawiau ar gynnydd mewn addysg. Mae’r canllawiau hyn yn gosod y gofyniad i bob sefydliad sy’n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos, yn amlwg, bod ei nodau er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae’r Coleg yn cynnig y buddion cyhoeddus adnabyddedig canlynol drwy hyrwyddo cynnydd mewn addysg:

- Addysgu a dysgu o safon uchel
- Ymestyn y cyfranogiad a threchu amddifadedd ac allgau cymdeithasol
- Systemau cryf i gefnogi myfyrwyr
- Cysylltiadau da gyda chyflogwyr

Mae darpariaeth y Gorfforaeth o’r budd cyhoeddus wedi ei hamlygu’n barhaus drwy’r adroddiad hwn a thrwy’r gwaith o gyflawni amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol y Coleg.


At ddibenion monitro perfformiad yn ystod y flwyddyn, mae gan y Coleg amryw o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) sy’n cefnogi’r blaenoriaethau a'r amcanion strategol, a gellir eu crynhoi fel Dangosyddion Perfformiad Allweddol o ran perfformiad y dysgwr, staff ac ariannol.


Yng ngoleuni'r heriau parhaus a wynebwyd drwy gydol y flwyddyn, roedd perfformiad y Coleg yn erbyn ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2022/23 yn gryf er bod rhai meysydd sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen eu gwella. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn ein Cynlluniau Gweithredu Strategol a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn.


Cyflwynir crynodeb o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r ddelwedd ar y dudalen nesaf yn crynhoi ein sefyllfa o ran yr hyn a gyflawnwyd ar gyfer 22/23 gyda manylion pellach a naratif yn cael eu darparu yn y tudalennau dilynol.


## KPIs Academc Year 2022/23


### Vision & Culture






### Our Learner Performance


**All Learners Who Complete a GCSE Resit Programme Improve by at Least One Grade**


55% Actual
75% Target


**All GCSE resit learners have baseline assessment within 4 weeks**

83% Actual
85% Target




### Health, Safety & Sustainability

**Reduce un-recycled waste E**

75% Target
82% Actual

**Increase Waste Recycle (R) Rate**

25% Target
18% Actual

**Volume of waste produced**

333,161kg Target
434,310kg Actual

**CO2 Emissions**

3,178,529kg Target
1,990,210kg Actual

**No. of Accidents/Year**

<100 Target
84 Actual


**Colleague Absence Rate**


<5% Target
4.5% Actual


**Achieve certification by December 2024**


On track to achieve
Target: To achieve


### Financial Performance



Mae'r drafodaeth ar dudalennau 5 i 20 yn rhoi rhagor o fanylder ynghylch ein perfformiad yn erbyn ein targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gynhwysir o fewn y tri maes allweddol canlynol:


| | |
|---|---|
| Ein Perfformiad Ariannol | • Tudalen 5 |
| Ein Dysgwyr | • Tudalen 9 |
| Datblygu Cwricwlwm | • Tudalen 11 |
| Buddsoddi mewn Staff | • Tudalen 14 |
| Buddsoddi yn ein Hystâd, Technoleg ac Adnoddau Ffisegol | • Tudalen 16 |
| Partneriaethau | • Tudalen 17 |
| Iechyd, Diogelwch a Pherfformiad Amgylcheddol | • Tudalen 19 |

## EIN PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae’r datganiadau ariannol hyn yn adlewyrchu canlyniadau’r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

Dylid nodi, er i’r Coleg barhau yn rhan o strwythur Grŵp drwy gydol 2022/23, ni fu unrhyw weithgaredd o fewn yr is-gwmnïau yn ystod y cyfnod hwn. Mae dau o'n his-gwmnïau, Coleg Gwent Catering Ltd a Coleg Gwent Enterprises Ltd yn parhau’n anweithredol ac yn ystod y flwyddyn 2020/21, daethpwyd â Coleg Gwent Training Ltd i ben.

Trafodir perfformiad ariannol y flwyddyn felly, yng nghyd-destun y Coleg yn unig drwy gydol yr adroddiad. Mewn blwyddyn lle mae sefydliadau wedi parhau i ddioddef oherwydd effaith ariannol cynnydd sylweddol mewn chwyddiant, mae perfformiad y Coleg yn erbyn ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol ar gyfer 2022/23 wedi parhau’n gryf iawn




gyda gwarged gweithredol lawer uwch na’r targed, a'r enillion cyn llog, trethi ac amorteiddiad (EBITA). Mae perfformiad yn erbyn targedau dysgwyr wedi bod yn heriol a thra nad yw hyn ymddangos i fod yn duedd o fewn y sector, mae hwn yn faes y mae'n rhaid i ni ei fonitro'n ofalus yn y dyfodol.

Wedi dweud hynny, dylid nodi bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2022/23, fel yn y blynyddoedd blaenorol a gafodd eu heffeithio gyda Covid, wedi'u hystumio'n sylweddol gan y lefel grantiau ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac a wariwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, adroddodd cyfrifon rheoli mewnol y Coleg **warged gweithredol o £5,832k.** Rhoddir cysoniad o'r sefyllfa hon i’r Datganiad o Incwm Cyfansawdd (tudalen 42) yn y tabl ar y dudalen nesaf

## Cysoniad Cyfrifon Rheoli i Ddatganiad o Incwm Cynhwysfawr

| | Gwirioneddol 2022/23 £k | Gwirioneddol 2021/22 £k |
|---|---|---|
| *Gwarged gweithredol cyn costau pensiwn heb fod yn arian parod ac eitemau eithriadol* | 2,581 | 4,608 |
| *Llai Costau pensiwn eraill heb fod yn arian parod* | (2,133) | (6,657) |
| *Gwarged gweithredol/(diffyg) cyn eitemau eithriadol* | 448 | (2,049) |
| *Costau ail-strwythuro staff* | (391) | (193) |
| *Elw ar waredu asedau* | 29 | - |
| *Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn* | 86 | (2,242) |
| *Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn* | 21,733 | 53,364 |
| *Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn* | 21,819 | 51,122 |

Mae'r gwarged gweithredol o £2,581k yn lleihad ar y gwarged gweithredol o £4,608k a adroddwyd yn 2022/23, ond yn parhau i fod yn llawer uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer 2022/23. Er nad yw hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion parhaus gan y Coleg i fynd i'r afael â'r pwysau cynyddol o ran cynnydd mewn costau staff a chynnydd sy'n llai na chwyddiant mewn incwm craidd, nid oes amheuaeth bod effaith barhaus Covid-19 i'w theimlo drwy gydol y flwyddyn ariannol, yn arbennig felly ar dueddiadau recriwtio amser llawn, ac ar les ac ymddygiadau dysgwyr.

Bu'r Coleg yn ffodus i fod â'r rhan fwyaf o'u ffynonellau incwm allweddol wedi eu hamddiffyn drwy gydol y pandemig ac unwaith eto yn 22/23 parhaodd Llywodraeth Cymru gyda'i hymrwymiad i ariannu adfer dysgwyr drwy ddarparu nifer o grantiau oedd yn galluogi'r Coleg i ariannu'r gefnogaeth ychwanegol hollbwysig roedd ei angen ar ein dysgwyr o ran addysgu a dysgu a llesiant a chyfoethogi.

Y materion eraill i'w nodi ac sydd wedi'u hadnabod yn y gwarged gweithredol net yw:

***Costau pensiwn heb fod yn arian parod*** - mae'r diffyg ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys costau o £2,131 (2021/22 - £6,657K) a gyfyd o ganlyniad i adnabod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â'r FRS 102 ac sy'n cynnwys dwy elfen:

| | | |
|---|---|---|
| *FRS 102 tâl uwchben cyfraniadau* | *£1,613k* | *(21/22 £5,624k)* |
| *Costau cyllid pensiwn* | *£520k* | *(21/22 £1,033k)* |

Mae'r costau i'r cyfrif incwm a gwariant yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd a symudiadau'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn – gyda'r ddau ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Coleg.

***Costau ailstrwythuro*** - mae cyfanswm o £391k o gostau (2022: £193k) wedi ei wario wrth ariannu newidiadau sefydliadol ar raddfa fach drwy gydol y flwyddyn.

***Gostyngiad wrth gronni tâl gwyliau*** - mae safonau cyfrifyddu yn mynnu bod y Coleg yn ystyried cost unrhyw hawl am wyliau sy'n weddill gan staff wedi'i gronni erbyn diwedd y

flwyddyn. Bob blwyddyn mae'r Coleg yn annog staff i archebu eu gwyliau blynyddol drwy system archebu electronig y Coleg. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae unrhyw wyliau heb eu cymryd yn cael eu costio drwy ddefnyddio cyfradd dâl ddyddiol pob aelod o staff a'r cyfanswm a gronnwyd wedi ei nodi yn y datganiadau ariannol blynyddol.

Yn ystod 2022/23, cafwyd lleihad arall yn y crynhoad o dâl gwyliau o £197k, gan ddod â chyfanswm y crynhoad i £269k. Mae effeithiau presennol y pandemig wedi parhau i gael effaith ar allu'r staff i gymryd eu hawl gwyliau blynyddol yn llawn, ac mae hynny wedi cynyddu'r nifer o wyliau sy'n cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol, a dyma felly yw'r rheswm dros y ddarpariaeth tâl gwyliau. Fel y rhagwelwyd, mae hyn wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd y lleihad hwn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r Coleg ddychwelyd i batrymau gweithio mwy rheolaidd.

**Polisïau ac Amcanion y Trysorlys**

Rheoli Trysorlys yw rheoli llif arian y Coleg, ei waith bancio, trafodion arian y farchnad a chyfalaf drwy'r marchnadoedd; rheolaeth effeithiol o'r risgiau a gysylltir â'r gweithgareddau hynny; a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae gan y Coleg bolisi Rheoli Trysorlys ar wahân ar waith. Bydd yr adolygiad nesaf o'r polisi yn digwydd yn 2025.

**Arian Parod**

Balans arian parod y Coleg ar 31 Gorffennaf 2023 oedd £33.6m (2022 - £32.4m). Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Coleg £6.8m mewn adnoddau cyfalaf er budd dysgwyr a staff, a chyflwynir manylion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Ffactor allweddol a gyfrannodd at y cynnydd yn y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd oedi grantiau heb eu gwario gan Lywodraeth Cymru, a llithriant yn rhaglen gyfalaf 2023/24.

**Effaith costau pensiwn ar ganlyniadau'r Coleg**

Mae canlyniadau'r Coleg yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan ansefydlogrwydd sy'n deillio o ofynion cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a osodir yn FRS 102. Mae'r safon cyfrifyddu yn sicrhau gofynion y Coleg wrth gyfrifyddu cost ei ymrwymiad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) o ran ei staff cymorth busnes. Yn sgil hyn, mae'r costau i'r cyfrif incwm a gwariant a'r rhwymedigaethau a ddangosir ar y fantolen yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd a symudiadau'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn – y mae'r ddau ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Coleg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i 2022/23, lle am yr ail flwyddyn yn olynol, cafwyd gwelliannau sylweddol yn sefyllfa ariannol amryw o gynlluniau pensiwn o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn y gyfradd ostyngol a gymhwyswyd i atebolrwydd yn y dyfodol.

Fel yr eglurwyd uchod, mae'r gwarged ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys costau heb fod yn arian parod o £2.1m (2022 - £6.7m) a gyfyd o ganlyniad i adnabod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â'r FRS 102.

Yn ogystal, mae'r gwarged pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £5.6m nawr wedi ei adnabod ar y fantolen fel ased anghyfredol. Mae pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i adnabod yn flaenorol fel darpariaeth (2022 - £24.0m).

Mae'r datblygiad ffafriol hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan gynnydd sylweddol yn y gyfradd ddisgownt o 3.5% yn 2022 i 5.05% yn 2023 ar oblygiadau cynllun. Mae'r cynnydd yng ngwerth

y buddsoddiadau isorweddol o 5.3% sy'n cael eu dal yn y gronfa dros y flwyddyn hefyd wedi cael effaith bositif ar brisiad pensiwn a'r prisiad fel gwarged.

Mae clirio'r diffyg yn y pensiwn a chynhyrchu gwarged pensiwn wedi cael effaith sylweddol ar fantolen y Coleg, gan gynyddu cronfeydd wrth gefn o £21.8m i £48.7m (2022 - £26.9m). Nid oes fawr ddim y gall y Coleg ei wneud i ddylanwadu ar symudiadau yn sefyllfa'r pensiwn, ar wahân i gynyddu cyfradd gyfrannu'r cyflogwr. Bu i brisiad bob tair blynedd o'r Cynllun a gwblhawyd yn 2022 arwain at gynnydd yng nghyfradd gyfrannu'r cyflogwr o 12.6% i 19.8%. Mae'r prisiad nesaf i'w gwblhau yn 2025.

Wrth ystyried effaith y gofynion cyfrifyddu hyn ar sefyllfa ariannol y Coleg, dylid nodi mai, yn eu hanfod, goblygiadau hirdymor yw'r rhai hyn yn ymwneud â phensiynau, ac wrth fodloni'r goblygiadau hyn bod y Coleg yn talu'r cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn a argymhellir gan yr actiwari cymwys annibynnol.

## Perfformiad Taliad


Mae gan y Coleg delerau talu 30 diwrnod safonol gyda'r rhan helaeth o'i gyflenwyr ac felly'n bodloni gofynion Deddf Taliadau Hwyr Dyledion Masnachol (Llog) 1998. Mae'r cyflenwr yn cael gwybod am y telerau hyn drwy gael copi o amodau a thelerau'r Coleg gyda phob archeb brynu.

Mae'r cyfrifiad o berfformiad talu, a bennwyd yn wreiddiol yn y Canllaw Cyfrifyddu, yn seiliedig ar y ffigwr credydwr ar ddiwedd y flwyddyn, ac ar 31 Gorffennaf 2023 roedd y ffigwr yn 6 diwrnod (2022 - 11 diwrnod).

## EIN DYSGWYR

### Rhifau Dysgwyr

Yn 2022/23 Coleg Gwent oedd y Coleg o ddewis i 14,456 o ddysgwyr (*2021/22 - 14,954*):




**Amrywiaeth ein Dysgwyr**

Mae'r Coleg yn ymrestru poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr sy'n adlewyrchu'n eang y cymunedau a wasanaethir gan ei gampysau, y pum masnachfraint Addysg Gymunedol yn y sir a'i raglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn 2022/23, roedd 9.2% *(21/22 - 9.0%)* o'n dysgwyr o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a datganodd 18.7% *(21/22 - 18.9%)* o ddysgwyr eu hunain yn anabl a/neu ag anhawster dysgu.

Parhaodd y nifer o wrywod oedd yn astudio yn y coleg yr un fath ar 47.3% *(21/22 - 47.3%)* o ddysgwyr y Coleg yn 2022/23.

Mae'r Coleg yn gwasanaethu cyfran sylweddol o ddysgwyr o ardaloedd ag amddifadedd uchel mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd mwyaf diweddar ar gyfer y sector (54.0% yn erbyn cyfartaledd sector o 49%). Wedi dweud hynny, mae hyn yn amrywio ar draws ein campysau, gyda chyfradd uwch o ddysgwyr o ardaloedd ag amddifadedd uchel ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent (62%) o'i gymharu gyda niferoedd llawer is yn ein campysau ym Mrynbuga.

Mae dysgwyr o bob degradd yn perfformio'n dda ar bob mesur ac mae hyn yn gyson ar draws y categorïau. Wrth gymharu'r canlyniadau i ddysgwyr o ddegradd 1 gyda degraddau 5-10, mae'r gwahaniaeth yn y gyfradd lwyddo yn unol â chyfartaledd y sector a'r flwyddyn flaenorol. Rhodda hyn sicrwydd bod y Coleg yn cefnogi ei ddysgwyr yn dda a bod ganddo strategaethau ar waith sy'n cyfaddawdu'n llwyddiannus ar gyfer yr effaith negyddol bosibl sydd ynghlwm ag amddifadedd ar ddysgu.

**Canlyniadau Dysgwyr**

Roedd y Coleg wrth eu bodd yn croesawu dysgwyr yn ôl i ddysgu wyneb yn wyneb yn dilyn cyfnod amharedig iawn drwy gydol y pandemig. Daeth yn amlwg yn fuan iawn bod dysgwyr angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn pontio yn ôl i amgylchedd dysgu cymdeithasol ac roedd y flwyddyn yn parhau i fod yn heriol i nifer o staff a dysgwr wrth i bawb drosglwyddo yn ôl i'r coleg.


Gan ddefnyddio cefnogaeth ariannol ar gyfer y sector gan Lywodraeth Cymru, fe wnaeth y Coleg gynllunio a darparu amrywiaeth eang o weithgareddau cefnogi oedd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi lles dysgwyr. Bu i bresenoldeb, sydd wedi cael ei adrodd yn eang fel rhywbeth sy'n broblem allweddol o fewn y sector cyn-16, ddylanwadu ar ymddygiad dysgwyr ôl-16 yn ogystal, ac mae'r coleg wedi parhau'n ymrwymedig i wella presenoldeb ac ail-ymgysylltu gyda phobl o bob oedran i ddod yn ôl i fyd addysg.

Gydag arholiadau Lefel A yn cael eu hailgyflwyno, gweithiodd y Coleg yn galed er mwyn darparu sesiynau i gefnogi'r rhai oedd yn dioddef o or-bryder yn gysylltiedig ag arholiadau. Fe wnaeth dros 1,400 o ddysgwyr eistedd oddeutu 3,400 o arholiadau AS a Lefel A: y ffigwr uchaf erioed o ran dysgwyr. O'r rhain fe gyflawnodd 69 3 gradd A*-A ac aeth nifer o ddysgwyr ymlaen i brifysgol Grŵp Russell neu Oxbridge.

Mae'r Coleg yn parhau i ddarparu Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru (PLA) sy'n helpu oedolion ymgymryd â chymwysterau sy'n cael eu cymeradwyo gan ddiwydiant, gan eu galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd i brif feysydd cyflogaeth.

**Canlyniadau Lefelau A**

Eleni oedd y flwyddyn olaf o'r pontio o ddulliau asesu cyn-bandemig gyda chanlyniadau cyffredinol ar draws Cymru yn gostwng tuag at lefelau cyn-bandemig. Er gwaetha'r lleihad yn y cymharydd cenedlaethol ar gyfer Lefel A, roedd y Coleg yn falch iawn gyda gwelliant o 97.4% o 96.3% yn 2021/22. Roedd y nifer o raddau A*-A yn arbennig o foddhaus gyda'r nifer uchaf erioed o ddysgwyr yn cyflawni o leiaf un A* (60) a 69 o ddysgwyr yn cyflawni 3 gradd A*-A.




- Cyfradd lwyddo Campws Crosskeys ar gyfer graddau A*-C oedd 73.8% gyda graddau A*-A cyffredinol yn 23.6%, sy'n dangos gwelliant parhaus o'i gymharu gyda lefelau cyn y pandemig.
- Cyfradd lwyddo Parth Dysgu Blaenau Gwent ar gyfer graddau A*-C oedd 76.5%, gyda graddau cyffredinol A*-A yn gwella eto ar gyfradd foddhaus o 27.2% sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau cyn y pandemig.
- Cyflawnodd Parth Dysgu Torfaen gynnydd sylweddol mewn cyfraddau llwyddo cyffredinol, gyda 71.1% o gyfraddau llwyddo A*-C.

**Canlyniadau TGAU**

Bu i 92% o'n dysgwyr a ddilynodd raglen TGAU Mathemateg ennill cymhwyster (A* i G) sy'n welliant o 7% ar y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol yng Nghymru. O'r rhain, cyflawnodd 18.4% raddau A* i C.

Cyflawnodd 97% o'n dysgwyr gymhwyster TGAU Saesneg (A* i G) sydd eto yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol ac uwchben cymharydd cenedlaethol Cymru. O'r rhain, cyflawnodd 28% raddau A* i C.

**Canlyniadau Cyrsiau Galwedigaethol**

Mae cyflawniad cyffredinol yr holl brif gymwysterau ar 20 Medi 2023 yn 89%. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa ar yr un pwynt y llynedd er ei fod yn debygol o gynyddu i oddeutu 91%. Mae cyfradd cadw disgyblion wedi gwella o 83% yn 2021/22 i 86% yn 2022/23, er bod hyn yn parhau'n is na'r hyn fu yn y blynyddoedd cyn y pandemig, lle roedd y gyfradd oddeutu 89-90%.

Erbyn i'r cyfnod cyflwyno data ddod i ben, rhagwelir y bydd dysgwyr sy'n astudio cyrsiau BTEC yn cyflawni yn fras yn unol â'r blynyddoedd blaenorol gyda phroffiliau graddau cyffelyb.

Mae'r cyfraddau llwyddiant ar eu hisaf mewn Gofal Iechyd a Gofal Plant lle mae cymwysterau newydd wedi parhau i gael effaith negyddol, a hefyd mewn AAT lle mae problemau'r corff dyfarnu wedi cael effaith ar ganlyniadau ar draws yr holl sector. Roedd y cyfraddau llwyddiant ar eu huchaf mewn pynciau Amaethyddol a Chelf a Dylunio lle mae'r gyfradd mynychu a chyflawni wedi bod yn dda iawn.

**Prentisiaethau**

Nid yw'r gyfradd lwyddiant ar gyfer Prentisiaethau yn derfynol hyd fis Rhagfyr bob blwyddyn, ond mae'r Coleg yn rhagweld canlyniad o 77% ar gyfer 22/23. Mae hyn yn gyson gyda'r canlyniad terfynol ar gyfer 21/22 ac, er ei fod yn is na'r targed uchelgeisiol mae'r Coleg wedi'i osod iddo'i hun, mae'n ganolig o fewn ein consortiwm, sy'n un o'r consortia perfformiad uwch yng Nghymru. Mae'r coleg hefyd wedi gweld twf yn ei werth cytundebol o dros £2.4m, gyda'r flaenoriaeth nawr i gynnal lefel y ddarpariaeth tra'n gwella ansawdd deilliannau.

**Targedau Cyllid**

Mae recriwtio amser llawn ar draws y sector yn 2022/23 unwaith eto wedi bod yn her i'r holl golegau wrth i ni barhau yn ein hadferiad ôl-bandemig. Yn gyffredinol, cyflawnodd y Coleg 84.7% o'i darged llawn amser gan Lywodraeth Cymru. Cynyddodd recriwtio rhan-amser yn sylweddol o'i gymharu gyda blynyddoedd y pandemig a chyflawnodd y coleg 94.2% o'i ddyraniad ariannu ac o ganlyniad daeth yn un o'r colegau sy'n perfformio orau yn y sector.

Roedd blwyddyn 2022/23 yn flwyddyn lwyddiannus arall ar gyfer PLA (Cyfrifon Dysgu Unigol) gyda'r coleg yn darparu dros £2.5m o weithgarwch.

Mae yna lawer o ansicrwydd ar draws y sector ôl-16 gyda sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn dynesu. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu trefniadau ar gyfer sut caiff colegau eu hariannu o 2024/25. Mae'r penderfyniadau ynghylch sut y bydd ariannu yn y dyfodol yn seiliedig ar recriwtio blaenorol, sut mae gwerthoedd ariannu yn cael eu cyfrifo a sut fydd gwahanol linellau cyllido yn cael eu heffeithio yn dal i fod i'w cytuno, er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn eglur y bydd angen lleihau'r gyllideb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae'r coleg yn chwarae rhan ragweithiol yn yr adolygiad pwysig hwn.

**DATBLYGU CWRICWLWM**

Mae ein cwricwlwm yn parhau i ddatblygu i gwrdd ag anghenion ein rhanddeiliaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r cwricwlwm yn un eang, fel un o'r ychydig ddarparwyr ôl-16 sy'n cynnig cyrsiau ar draws pob Maes Pwnc Sector. Mae cyfleoedd ar gyfer dilyniant yn rhan bwysig o'n cynllunio a'n datblygiad gyda llwybrau o lefel Mynediad i Addysg Uwch, a chyd portffolio Lefel 6 sy'n tyfu.

Mae gweithio gyda chyflogwyr yn brif flaenoriaeth i ni, gan ddatblygu partneriaethau sy'n cyfrannu at fod yn sail i'r cynnig cwricwlwm a'i wella, a'r dull mae'n cael ei ddarparu. Mae alinio ein cynnig cwricwlwm i flaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn thema bwysig i bob cyfadran, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r farchnad waith a neilltuo ein tîm Ymgysylltu â'r Cyflogwr i gyflogwyr allweddol.

Mae datblygu sgiliau yn parhau'n flaenoriaeth uchel gyda darparu naill ai Bagloriaeth Cymru neu raglen Sgiliau Agored i holl ddysgwyr llawn amser, ynghyd â llwybrau TGAU lle bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae gan ddysgwyr gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac mae hyn yn ffurfio rhan hanfodol o ddysgu ar gyfer pynciau sy'n flaenoriaeth megis Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyfryngau.

Mae buddsoddi mewn adnoddau yn parhau i'n galluogi ni i sicrhau bod y cynnig cwricwlwm yn gyfredol ac yn berthnasol, ac yn arwain at ddysgwyr sydd gan y sgiliau i symud ymlaen i gyflogaeth. Er enghraifft, mae gennym fflyd estynedig o gerbydau trydan mewn peirianneg chwaraeon modur, labordy deunyddiau cyfansawdd, hybiau Seibr a gorsafoedd efelychu gofal iechyd, ynghyd â chyfleusterau gofal anifeiliaid a chyfleusterau ceffylau estynedig.

## LLWYDDIANNAU DYSGWYR

Llwyddodd Academi Rygbi ein merched i gadw eu coron am y drydedd flwyddyn yn olynol wedi iddynt ennill 17-0 yn erbyn Coleg Llanymddyfri yng ngemau terfynol Ysgolion a Cholegau Cenedlaethol Undeb Rygbi Cymru o dan 18 oed.

Rydym wedi cael blwyddyn arall eithriadol o lwyddiannus gyda Chystadleuaeth Sgiliau Cymru, gan brofi ein bod y gorau yng Nghymru ac yn un o'r colegau gorau yn y DU ar gyfer cystadlaethau sgiliau. Llwyddwyd i sicrhau medalau mewn amrywiaeth o feysydd sgiliau, o ddatrysiadau meddalwedd i fusnesau i hyfforddi personol, ac o blymio i gelf gemau 3D. Llwyddwyd i sicrhau 17 medal, gyda 3 Medal Aur a 6 Medal Arian.

Cafodd tri o'n dysgwyr talentog eu dewis o blith cannoedd o gystadleuwyr i gynrychioli'r Deyrnas Gyfunol yn Sgwad Cenedlaethol Worldskills. Dymunwn yn dda i'r dysgwyr hyn pan fyddant yn teithio i Lyon ym mis Medi 2024.

Yn olaf, yn rowndiau terfynol Worldskills UK, fe wnaeth un ar ddeg o'n dysgwyr talentog gipio medal Aur, Arian, Efydd a chlod uchel.

## DATBLYGU CWRICWLWM

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda'r Athro Paul Edwards i lansio Gradd Llwybr Meddygol: y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'r cwrs hwn yn symudiad sy'n torri tir newydd o ran symud tuag at gynhwysiant a chyfle cyfartal, gan roi'r cyfle i ddysgwyr astudio yn y maes blaenoriaeth hwn.

Rydym yn falch o fod yn Goleg CyberFirst Aur, yn gweithio mewn partneriaeth gyda phrif gyflogwyr, gan gynnwys Admiral, Fujitsu a Thales. Mae cyflogwyr yn ein helpu i lywio a chynllunio'r cwricwlwm a darparu cyfleoedd gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwaith i'n dysgwyr er mwyn eu helpu i gael profiad blaengar mewn diwydiant. Cyfrannodd y symudiad hwn i weithio mewn partneriaeth at ein camp yn cyrraedd rhestr fer gwobrau clodfawr AoC Beacon 2022.

Mae ein rhaglen Interniaeth wedi'i Chefnogi ILS (Llwybr 4) yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae ein dysgwyr ILS yn cael budd o leoliadau gydag amrywiaeth o gyflogwyr o fewn iechyd ac arlwyo i enwi dwy ddisgyblaeth yn unig. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant mawr gyda nifer o ddysgwyr yn llwyddo i sicrhau cyflogaeth o ganlyniad i hynny.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o Chef's Forum yn y DU sy'n galluogi i'n myfyrwyr lletygarwch ac arlwyo gael budd o ymgysylltu'n uniongyrchol gyda chyflogwyr presennol yn y sector hwn, a gweithio gyda hwy.

Rydym wedi parhau i ddiweddaru ein cyfleusterau peirianneg, gan ymestyn ein cwricwlwm peirianneg chwaraeon modur gyda cherbydau rasio ac ychwanegu at ein fflyd o gerbydau trydan. Mae'r gweithdai wedi cael eu hadnewyddu'n llwyr gyda'r offer diweddaraf.

## CYFLEOEDD DYSGU

Rydym yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi ac yn benodol, teithiau dramor i ddysgu mwy am y diwydiant y mae'r maes galwedigaethol yn rhan ohono. Dyma ychydig o enghreifftiau o'n gweithgareddau cyfoethogi.

Aeth ein dysgwyr ffotograffiaeth a'r cyfryngau ar daith i'r enwog Ŵyl Ffilmiau Cannes fel rhan o'u rhaglen profiad gwaith werthfawr.

Bu i ddysgwyr Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus Parth Dysgu Blaenau Gwent ddechrau Her Dinasyddiaeth Fyd-eang gan weithio gyda chymunedau difreintiedig yn Nepal.

Aeth dysgwyr Celfyddydau Creadigol o'n Campws Crosskeys wedi cael taith wych i Seoul yn Ne Corea fel rhan o daith astudio cyfoethogi gyda Challenges Abroad.

## GWOBRAU A DATHLIADAU

Anrhydeddwyd y tîm Celfyddydau Creadigol ar Gampws Crosskeys gyda Gwobr Arian ar gyfer Tîm Addysg Bellach y Flwyddyn yng ngwobrau Pearson National Teaching Awards. Maent wedi llwyddo yn erbyn cannoedd o ymgeiswyr o'r DU a bellach maent ar restr fer i ennill un o'r 16 Gwobr Aur.

Fel rhan o'n dathliadau amrywiaeth, fe wnaethom gynnal digwyddiad yn rhan o Ddiwrnod Amrywiaeth Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig ar 26 Mai 2023, ac fe ymunodd aelodau o'r Rhwydwaith Cyswllt Cydraddoldeb Hil a'n Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ni.

Fel coleg sy'n arwain y sector yng Nghymru gyda chynllun Gwobrau Dug Caeredin, rydym yn hynod falch o fod yn croesawu Ei Mawrhydi Iarll Wessex am y diwrnod er mwyn dathlu a rhannu arfer da mewn diwrnod her arbennig. Ymunodd dros 50 o bobl ifanc i gyfranogi yn y digwyddiadau adeiladu tîm, cymorth cyntaf, cyfeiriadu ac ymgyrchu.

## BUDDSODDIAD YN EIN STAFF

Wrth adolygu'r 12 mis diwethaf, mae llawer o'n hamser a'n ffocws wedi bod ar barhau i fewnosod ffyrdd o weithio sydd wedi'u hadolygu, lle mae wedi bod yn fuddiol i wneud hynny. Rydym wedi canolbwyntio ar adnabod anghenion staff wrth iddynt barhau i gefnogi ein dysgwyr, gan gydnabod bod y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn arbennig o heriol i bobl ifanc.

### Ymgysylltu â Staff

Cyhoeddwyd yr arolwg ymgysylltu â staff am y drydedd flwyddyn ym mis Mehefin 2023, ac rydym wedi gweld cynnydd o 1% yn ein sgôr ymgysylltu gyda staff sydd bellach yn symud at 66%. Mae camau gweithredu craidd wedi cael eu cymryd yn dilyn yr adborth arolwg 2022, a gellir eu gweld yn y buddsoddiad sylweddol a wnaed mewn lles, cynhwysiant, dysgu a datblygu ac adolygu polisi. Mae cynlluniau gweithredu yn awr yn cael eu creu er mwyn ymateb i ganlyniadau arolwg Mehefin 2023 a byddant yn cael eu rhannu gyda'r holl gydweithwyr drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu.

### Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rydym wedi parhau i feithrin diwylliant o ddysgu a datblygu, lle mae dysgu gydol oes yn cael ei hyrwyddo drwy ein proses ariannu unigol a thrwy ddatblygiad Hwb CPD, sy'n cynnig adnoddau a chyrsiau i'r holl staff eu defnyddio.

Mae dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd wedi esblygu ac mae Dyddiau Dysgu Proffesiynol (PLD) yn ceisio darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer Cyfadran ac Adran, ochr yn ochr â dyddiau hyfforddiant i'r Holl Staff, sy'n canolbwyntio ar ddysgu corfforaethol a blaenoriaethau datblygu. Nod y Dyddiau Dysgu Proffesiynol yw cynnig dull aml-haenog o ddysgu a datblygu, gan alluogi staff i deilwra'r dyddiau hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant sy'n fwyaf priodol iddynt hwy, gan gefnogi blaenoriaethau unigol, adrannol a sefydliadol.

Mae'r rhaglen Rhagoriaeth Arweinyddiaeth sy'n cael ei darparu gan John Garland yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb unwaith eto, ac wedi'i darparu'n llwyddiannus i Garfan 13 ac 14. Gan gefnogi 23 o reolwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd i reoli ac arwain yn effeithiol yn y Coleg.

Mae datblygu a lansio ein sesiwn anwytho digidol wedi cefnogi ein dechreuwyr newydd wrth iddynt gynefino. Mae ein proses anwytho wedi ei gwella ymhellach drwy sesiynau 'Cwrdd a Chyfarch CLT', Anwythiad Digidol a'n hyfforddiant Gwrth-hiliaeth Cam 1.

### Tâl a Chydnabyddiaeth Ariannol Staff

Mae'r coleg yn arddangos gwerth i'w staff drwy adolygu tâl a gwobrwyo yn flynyddol drwy sicrhau bod agwedd mantais gystadleuol yn cael ei chynnal, a bod cyfraniadau staff i lwyddiant y coleg yn cael eu cydnabod. Roedd y codiad cyflog yn ystod 2022/23 yn cydnabod pwysau costau byw a gwnaed y cynnydd canlynol:

- Cymhwyswyd costau byw gwirioneddol i bwyntiau 20 (BS2) a 21 (BS3).
- Derbyniodd yr holl staff dâl atodol costau byw o 6.5%.
- Cafodd taliad 1.5% pellach o enillion o 1af Awst 2023 hyd 31 Gorffennaf 2023 ei wneud fel tâl untro.

Mae'r Coleg hefyd yn ceisio sicrhau tegwch a thryloywder ynghylch dyraniad tâl ac mae'r adroddiad blynyddol ar Fwlch Cyflog Rhywedd yn un elfen o hyn. Yn ystod 2022/23 fe adroddasom am fwlch cyflog rhywedd cymedrig o 6.75% a bwlch cyflog rhywedd canolrifol o 13.08%.

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Rydym wedi parhau i yrru diwylliant o gynhwysiant ac rydym yn dathlu amrywiaeth ein dysgwyr, cydweithwyr, cymunedau a rhanddeiliaid. Cafodd ein gwaith caled a'n hymdrech yn y maes ei gydnabod yng ngwobrau CIPD De Cymru pan dderbyniodd y Coleg glod uchel am y Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau. Mae cyflawniadau yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i adolygu yn ei gyfanrwydd ac mae'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Coleg dros y 3 mlynedd nesaf.
- Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i gwrdd ac mae'n gweithio tuag at ehangu eu dyfnder a'u cwmpas. Mae hyn wedi cael ei arddangos drwy liaws o fideos.
- Mae camau gweithredu tuag at gynllun 10 pwynt Gwrth-Hiliaeth y Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon (BLG) wedi eu symud yn eu blaen. Mae hyn yn cynnwys 90% o'r holl gydweithwyr yn cwblhau Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth.
- Mae 6 Rhwydwaith Cyswllt Staff newydd wedi eu sefydlu gyda thros 180 o aelodau ar hyd a lled y Coleg.
- Mae 30+ o straeon o dan y chwyddwydr wedi cael eu rhannu sy'n dangos ethos "un tîm" ac sy'n hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a lles fel blaenoriaeth i'r Coleg.
- Lansio Pecyn Cymorth Iaith Gynhwysol.
- Mae 32 o erthyglau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu rhannu gyda'r holl gydweithwyr drwy lansio'r ymgyrch "Bydd yn Ti dy Hun". Roedd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar groesawu amrywiaeth a chreu man diogel fel bod pawb yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

**Iechyd a Lles**

Mae iechyd a lles cydweithwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Coleg, ac rydym yn parhau i ymateb i adborth yr arolwg staff mewn perthynas â dangosyddion Lles a chyfraddau absenoldebau cydweithwyr.

Yn y 12 mis diwethaf, mae'r camau gweithredu wedi cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno'r ap llesiant - Headspace. Mae hwn ar gael i bob cydweithiwr.
- Mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl sy'n sensitif i ddiwylliant ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd ac o gymunedau ethnig lleiafrifol.
- Rhoi cyfle i gydweithwyr fod yn rhan o'n 6 rhwydwaith cyswllt staff.
- Darparu rhaglen llesiant 3 sesiwn sy'n canolbwyntio ar Les Ariannol a Chydnerthedd Personol.
- System gyfeirio well tuag at gynnig llesiant y Coleg.
- Cwblhau grwpiau ffocws Llesiant oedd yn ystyried y camau y mae angen i'r Coleg eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau llesiant a llwyth gwaith.

## BUDDSODDI YN EIN HYSTÂD, TECHNOLEG AC ADNODDAU FFISEGOL

Er yr anawsterau parhaus sy'n cael eu cyflwyno gan Covid-19, rydym wedi parhau i weithio'n galed i atgyfnerthu adnoddau i'n dysgwyr a'n staff, a thrwy gydol y flwyddyn defnyddiasom yn effeithiol ac effeithlon holl grantiau cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â Covid gan Lywodraeth Cymru pan gawsant eu cyhoeddi. Gyda'i gilydd fe wnaethom fuddsoddi £6.8m mewn amrywiol brosiectau fel sy'n cael ei grynhoi yn y siart isod.

### BUDDSODDIAD YN EIN HYSTADAU A'N CYFLEUSTERAU £2.0M

Mae £1.44m o waith Ôl-groniad Cynnal a Chadw sy'n cael eu hariannu gan grantiau wedi eu hymrwymo iddynt a'u cwblhau o dan bwysau amser sylweddol. Roedd y gwaith yn cynnwys rhoi to newydd ar ddau floc, lifft nwyddau newydd, boeleri newydd, drysau newydd, cladin, gwaith atgyweirio, adnewyddu theatr ddarlithio ac amrywiaeth o waith yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch.

Mae gwaith sylweddol i Floc, B, Bloc F a Bloc G ar Gampws Dinas Casnewydd wedi'i wneud er mwyn cynnwys myfyrwyr adeiladu o gampws Pontypŵl Mae'r campws hwnnw bellach wedi cau.

Mae amrywiaeth o brosiectau cyfalaf - cyfanswm o £1m - wedi'u cwblhau, gan gynnwys ail-bwrpasu Bloc A yn Crosskeys, a gwaith adnewyddu sylweddol i'r ystafell Gelf a'r Salon Gwallt yng Nghasnewydd. Yn ogystal, cafodd system ddraenio budreddi newydd ar gyfer yr adeilad Ceffylau ym Mrynbuga ei gosod.

Mae prosiect HiVE yng Nglyn Ebwy wedi dechrau ar y safle a bydd yn darparu cyfleuster peirianneg newydd anhygoel i'r Coleg.

Mae astudiaeth prif gynllunio mawr yn nesu at gael ei gwblhau ar gyfer Campws Crosskeys a bydd yn mynd i'r afael â Charbon Sero Net, adeiladau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, profiad myfyriwr a phroblemau ?? Mae camau cychwynnol gwaith yn dechrau cael eu gynllunio ar gyfer ceisiadau ariannu.

Prosiect Adeiladau 1917. Gwaith archwilio tir ychwanegol yn cael ei wneud er mwyn boddhau NRIO mewn perthynas â chynhyrchu Ffosffad a'r Cais Cynllunio.

### BUDDSODDIAD MEWN TECHNOLEG £2M

Caffael a dosbarthu 300 o gyfrifiaduron sbec uchel newydd a 130 iMacs ar gyfer ystafelloedd dosbarth. Bydd hyn yn safoni technoleg i ddysgwyr ar draws y Coleg; yn arbennig felly ar gyfer y cwricwlwm creadigol, cyfryngau a pheirianneg.

Hwyluso'r cynnydd yn nifer y dysgwyr ym Mharth Dysgu Torfaen drwy gaffael dyfeisiadau symudol ychwanegol. Mae hyn wedi ei ariannu'n rhannol gan Ariannu Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.

Gosod a rhoi 80 o fyrddau gwyn rhyngweithiol newydd ar draws y Coleg. Cafodd hyn ei ariannu'n rhannol gan Ariannu Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.

Buddsoddiad parhaus mewn isadeiledd TGCh craidd, megis gwella'r amgylchedd storio gweinydd a chaffael 80 o switsys.

Gwell cydnerthedd ar gyfer DR, megis darparu meddalwedd monitro ychwanegol a datrysiad DR estynedig.

Buddsoddiad pellach i hyrwyddo ffordd o feddwl 'Digidol y Ddiofyn' ar gyfer ein dysgwyr a'n staff. Mae hyn wedi ei ariannu fel rhan o fenter Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.

### BUDDSODDIAD MEWN CYFARPAR CWRICWLWM AC ADNODDAU ERAILL

Buddsoddiad sylweddol yn yr Uned Gofal Anifeiliaid a Chanolfan Geffylau drwy raglen o gyfarpar a mannau newydd neu wedi'u hadnewyddu ar gyfer pob anifail. Drwy fuddsoddi yn y da byw y cynyddwyd y nifer o geffylau mae'r coleg yn berchen arnynt yn y Ganolfan Geffylau.

Crëwyd rhaglen drawsnewid i fuddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer myfyrwyr peirianneg yn 20/21. Roedd hyn yn cynnwys newid y rigiau hydrolig yn Crosskeys y buddsoddwyd dros £500k ynddynt.

Gwnaethpwyd buddsoddiad mawr i gefnogi ein myfyrwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Nhorfaen, a roddodd fynediad i fyfyrwyr at y cyfarpar DofE yr oeddynt ei angen.

Prynwyd cerbydau trydan uchel eu proffil i gynyddu'r ddarpariaeth yn Crosskeys ac i gynnig y gallu i fyfyrwyr i weithio ar y dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer cerbydau trydan.

Mae Rhaglen Disodli Asedau ar waith i olrhain dyddiadau bras y gwaith o ddisodli cyfarpar cyfalaf sylweddol, ac mae'n cynnwys unrhyw ofynion am gyfarpar ar gyfer y dyfodol sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau strategol. Mae hyn yn ein galluogi ni i ymateb yn gyflym pan mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi ac yn ein galluogi i weithio mewn amserlenni heriol iawn. Rydym wedi gallu prynu cyfarpar ar gyfer y cwricwlwm sy'n ofynnol i gefnogi ein myfyrwyr drwy gydol y pandemig cyfredol.

**PARTNERIAETHAU**

Mae gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn parhau i fod yn weithgareddau pwysig i'r Coleg er mwyn gwella ac ehangu ein budd i ddysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned.

Pwrpas ein Haddewid Partneriaeth yw cryfhau'r cysylltiadau gyda diwydiant a rhoi hwb i ymgysylltiad gyda chyflogwyr, er mwyn helpu i fodloni blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol, cefnogi canlyniadau myfyrwyr a'r economi leol. Eleni gwelwyd y nifer o gyflogwyr oedd wedi ymrwymo i'r Addewid gynyddu i 15, gyda nifer o'r cyflogwyr eraill yn mynegi diddordeb i ymuno. Mae ein gwaith ar Coleg Seibr Cymru, mewn partneriaeth gydag Admiral, Fujitsu a Thales wedi ennill lle i'r Coleg ymysg tri olaf Gwobrau Rhagoriaeth mewn Dysgu Byd Real.

Mae'r Coleg yn cynnig contract Prentisiaeth fel rhan o'r consortiwm B-WBL, sydd dan arweiniad Coleg Sir Benfro. Mae'r trefniant hwn yn parhau i weithio'n dda ac mae'r Consortiwm yn darparu llawer o gefnogaeth i raglen Prentisiaeth y Coleg, yn ogystal â hwyluso contract Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd deilliannau Prentisiaethau 2022/23 ar gyfer y Coleg yn gwella ar 2021/22, ac rydym wedi gweld twf pellach yng ngwerth ein cytundeb eleni.

Mae'r Coleg yn gweithio'n strategol gyda nifer o bartneriaid addysg uwch er mwyn cynnig cyrsiau lefel prifysgol mewn amrywiaeth cynyddol o feysydd pwnc. Yn ystod 2022/23 fe wnaeth 593 o ddysgwyr ymrestru ar gwrs addysg uwch yn cwmpasu amrywiaeth o gyrsiau. Rydym hefyd yn cydweithio gyda phrifysgolion, yn fwyaf nodedig, Prifysgol De Cymru, ar weithgarwch rhanbarthol er budd y gymuned leol a chyflogwyr.

Mae'r Coleg yn cwmpasu pum ardal Awdurdod Lleol a gwneir ymdrech i ymgysylltu â phartneriaethau strategol a gweithredol perthnasol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau sgiliau a hyfforddiant a fforymau economaidd. Mae'r Coleg yn cryfhau'n barhaus ei gysylltiadau ag Awdurdodau Lleol a chaiff ei gydnabod fel rhanddeiliad yn yr agendâu sgiliau, twf a ffyniant ledled Gwent. Yn fwyaf uniongyrchol, rydym yn gweithio gyda phob un o'r pum Awdurdod Lleol fel rhan o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent i gynnig cyrsiau er mwyn darparu mynediad lleol i gymunedau allu ennill sgiliau a chymwysterau newydd.

Mae'r Coleg hefyd yn parhau i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i gyflawni Chwarter Gwybodaeth Casnewydd, a champws newydd sbon yng nghanol y ddinas. Mae'r prosiect wedi cyrraedd sawl carreg filltir bwysig wrth baratoi ar gyfer dechrau'r broses gynllunio yn 2023/24.

Ym Mlaenau Gwent, mae'r Coleg wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, fenter y Cymoedd Technegol, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr yn arbennig er mwyn cefnogi'r sector peirianneg a gweithgynhyrchu. Mae'r broses o greu cyfleuster HiVE yn Nglyn Ebwy fel canolfan hyfforddiant ac addysg peirianneg arbenigol wedi symud yn ei blaen, gyda'r cynllunio a'r ariannu wedi'u diogelu. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ar HiVE ddechrau ym mis Medi 2023.

Mae'r Coleg hefyd yn cyfrannu at fenter y Cymoedd Technoleg, sy'n ceisio cefnogi Cymoedd de Cymru a Blaenau Gwent i ddatblygu technolegau newydd i gefnogi diwydiant newydd flaengar. Mae'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) yn aelod o Grŵp Cynghori Strategol y Cymoedd Technoleg, sy'n darparu cyngor strategol i Grŵp Nawdd y Cymoedd Technoleg (uwch swyddogion Llywodraeth Cymru) ar amcanion, blaenoriaethau a darpariaeth strategol sy'n ymwneud â'r Cymoedd Technoleg.

Mae'r Pennaeth yn parhau i gynrychioli'r sector AB ym Mhartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Ymhlith ei chyfrifoldebau, mae'r bartneriaeth hon yn chwarae'r rôl bwysig o gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau sgiliau ar gyfer economi rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Mae'r Pennaeth hefyd yn rhan o Bartneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n gorff cynghori i Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac sy'n gyfrifol am gynghori ar faterion yn ymwneud â datblygu polisi economaidd.

Mae'r partneriaethau sy'n cefnogi i gyflawni prosiectau sydd wedi'u hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn parhau i ddarparu rhagor o werth i'r Coleg, dysgwyr a chyflogwyr lleol yn ystod eu blwyddyn olaf yn 2022/23. Roedd y prosiectau Ysbrydoli i Gyflawni, oedd yn cael eu harwain gan Awdurdodau Lleol, yn ymwneud â nifer o bartneriaethau rhanbarthol ac roedd yn cefnogi dysgwyr sydd fwyaf mewn risg o ddod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r prosiectau Uwchsgilio@Waith dan arweiniad Coleg Gwent a Choleg y Cymoedd, ac yn waith ar y cyd rhwng partneriaid AB yn ne-ddwyrain Cymru a Phowys. Yn ogystal, mae'r Coleg yn cadeirio rhwydwaith sgiliau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a'r grŵp sy'n ei ddilyn, sy'n grŵp eang o gyrff AB, AU, Awdurdod Lleol a thrydydd sector sy'n cyflawni sgiliau a hyfforddiant. Mae trafodaethau yn awr wedi symud ymlaen i ganolbwyntio ar gyfleoedd i gydweithredu o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

## IECHYD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD AMGYLCHEDDOL

### *Iechyd a Diogelwch*

Yn ystod 2022/23, parhaodd y Coleg i gyflawni ei nod o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn ar ei berfformiad iechyd a diogelwch, ac o wneud hynny fe gyflawnodd nifer o nodau iechyd a diogelwch allweddol, sy'n dangos ymrwymiad y Coleg i leihau risg a darparu amgylchedd diogel i'r holl staff a dysgwyr gan sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol.

Yn ystod 2022/23 llwyddodd y Coleg i gynnal ei achrediad ISO 45001:2018 (Safon Iechyd Galwedigaethol a Rheoli Diogelwch). O ganlyniad, mae'r Coleg yn parhau i fod yr unig Goleg Addysg Bellach yng Nghymru gydag achrediad i'r safon yma. O dan system reoli Iechyd a Diogelwch y Coleg, roedd nifer o gofrestrau yn cael eu cynnal, sef y gofrestr ddeddfwriaeth, cofrestr anghydffurfio, a'r gofrestr risg a chyfleoedd. Cafodd yr holl gofrestrau eu hadolygu a'u diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd a'u monitro gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd. Mae'r adolygiad yn sicrhau bod cydymffurfiaeth deddfwriaethol a'r peryglon a risgiau iechyd a diogelwch sylweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r Coleg yn cael eu hasesu, a bod y mesurau rheoli yn cael eu hadolygu a chamau priodol yn cael eu cymryd er mwyn lleihau'r risgiau hynny.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg 44 o risgiau Iechyd a Diogelwch sylweddol, y mae 25 ohonynt wedi'u hasesu'n risgiau isel, 18 wedi'u hasesu'n risgiau canolig ac un wedi'i asesu'n risg uchel (gweithgareddau Fferm).

### *Prif Gyflawniadau Iechyd a Diogelwch*



*Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd*

Yn ystod 2022/23 fe wnaeth y Coleg ddatblygu a rhoi cynllun Carbon Sero Net ar waith. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o dargedau heriol ond realistig ac mae'n sefydlu cyfres o 10 egwyddor a fydd yn cefnogi'r Coleg i gyflawni ei nod o fod yn carbon sero net erbyn 2050.

Roedd cyfanswm yr ôl troed carbon ar gyfer 20/22/23 yn cyfateb i 2,788.34 tCOe (21/22 = 2,931.39). Mae hwn yn ostyngiad o rhyw 143.05%. tCO2e. Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ôl troed carbon yn ôl cwmpas a ffynhonnell gweithgaredd.

| **Cwmpas 1**<br>Ffynhonnell Allyriad | Tunelli $CO_{2e}$ |
|---|---|
| Nwy Naturiol | 1,059.62 |
| Systemau oeri, f-gas, VOC | 0 |
| Cludiant Fflyd - Bws mini | 11.33 |
| **Cyfanswm** | **1,070.95** |

| **Cwmpas 2**<br>Ffynhonnell Allyriad | Tunelli $CO_{2e}$ |
|---|---|
| Trydan | 707.34 |
| Gwresogi Rhanbarth | 211.92 |
| **Cyfanswm** | **919.26** |

| **Cwmpas 3**<br>**Ffynhonnell Allyriad** | **Tunelli $CO_{2e}$** |
|---|---|
| Gwaredu a Thrin Gwastraff | 8.86 |
| Cyflenwad Dŵr Thriniaeth | 9.46 |
| Fflyd Lwyd - Teithio Busnes | 30.39 |
| O'r Ffynnon i'r Tanc - allyriadau GHG | 305.31 |
| Trosglwyddiad trydan a gwres a cholledion dosbarthu | 72.64 |
| Hedfaniadau pellter byr - Teithio | 65.93 |
| Hedfaniadau pellter hir - Teithio | 239.61 |
| Nwyddau a brynwyd - Papur | 65.93 |
| **Cyfanswm** | **798.13** |

Yn ogystal â'r uchod, fe wnaeth y coleg gadw ei achrediad i ISO 14001:2015 ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol, ac mae'n parhau i fod yr unig Goleg Addysg Bellach yng Nghymru i ddal y safon hwn.


## ANSICRWYDD A RISGIAU I'R DYFODOL

Mae ein hagwedd tuag at reoli risgiau yn syml ac ymarferol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, dan awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd Llywodraethwyr, yn atebol am oruchwylio effeithiolrwydd ein polisi a phrosesau rheoli risgiau, gan gynnwys adnabod y prif risgiau a'r risgiau newydd sy'n wynebu'r Coleg.

Caiff y Polisi Rheoli Risgiau ei adolygu a'i ddiwygio'n ffurfiol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd yn llwyr ag anghenion y Coleg a chyfrifoldebau llywodraethiant corfforaethol.

Mae ein proses rheoli risgiau yr un fath â'n model gweithredu, gyda phob deiliad cyllideb yn gyfrifol am adnabod, asesu a rheoli yn barhaus ei risgiau cyfredol a risgiau newydd. Yn y pen draw, caiff allbynnau'r asesiadau hyn eu cyfanredu i greu gweledigaeth gorfforaethol, gyffredinol o risg.

Mae'r broses hon yn cynnwys:




Mewn Seminar Strategaeth diweddar, fe wnaeth y Bwrdd, ynghyd â chydweithwyr o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gyfranogi mewn ymarfer Gweithdy Risg ar gyfer grŵp oedd yn gofyn i bob grŵp adolygu'r risgiau Corfforaethol ar gyfer 22/23, gan roi sylw ar eu perthnasedd parhaus a'u graddfa risg. Yn dilyn hyn gofynnwyd i grwpiau awgrymu unrhyw risgiau pellach a allai fod angen eu hychwanegu i'r gofrestr risg.

Mae'r prif risgiau Corfforaethol newydd a gafodd eu hadnabod ar gyfer 23/24 yn cael eu rhestru ar y dudalen nesaf.

Bydd y risgiau yma yn cael eu rheoli a'u monitro'n agos drwy gydol 2023/24.

**Risgiau a gynhwysir ar Gofrestr Risg Gorfforaethol 2023/24**

| | Summary of Risks 23/24 |
|---|---|
| 1 | The ongoing impact of Covid-19 on learner and staff wellbeing adversely impacts on learner outcomes, financial health and reputation. |
| 2 | Failure to reach full-time learner LAP targets results in loss of income (in-year and future allocations) and adversely impacts on financial health. |
| 3 | The new PCET commission leads to a dilution of the FE voice and impacts adversely on funding, effective leadership and governance within FE. |
| 4 | Failure to develop a robust plan to deliver financial efficiencies adversely impacts on financial health, reputation and ability to raise funds for investment. |
| 5 | Industrial unrest/action as a result of not meeting union pay claims/workload agreement and other issues impacts on learner outcomes and leads to reputational damage. |
| 6 | Failure to comply with Health & Safety/Environmental/DDA legislation leads to financial penalty and reputational damage. |
| 7 | Increased risk from cyber security threats result in failure of the ICT infrastructure, preventing access to key college systems and affecting learner and staff performance and possibly reputation and financial health |
| 8 | Failure to fully meet the requirements of the General Data Protection Regulation (GDPR) may lead to financial penalty and reputational damage. |
| 9 | Failure to develop and comply with effective internal control procedures results in fraudulent activity leading to loss of monies/assets and damaged reputation. |
| 10 | Failure to develop, update and comply with safeguarding policies, particularly in the current digital climate leads to harm to learners and financial and/or reputational damage. |
| 11 | Failure to prepare to meet the legal requirements set out in the ALNET Act will increase the likelihood of the college being taken to educational tribunal resulting in financial costs and damage to reputation. |
| 12 | Failure to develop and create a diverse workplace which represents the communities we serve leads to adverse impact on organisational effectiveness and reputation. |
| 13 | The withdrawal of general vocational qualifications causes disruption for learners and a potential adverse impact on learner recruitment. |
| 14 | Failure to prepare for and embrace Net Zero targets leads to a regulatory failure, financial loss and reputational damage. |
| 15 | Failure to implement a robust succession plan for key Board and Leadership roles results in organisational disruption and adversely impacts on capacity and ability to meet our strategic aspirations. |
| 16 | Failure to address key strategic estate developments, particularly the NKQ, leads to reduction in learner numbers, learner outcomes, staff morale and reputation. |

**BLAENORIAETHAU I'R DYFODOL**

Mae cadw ein dysgwyr a'n staff yn ddiogel a sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y profiad gorau posibl yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni.

Byddwn yn gweithio ar ystod o fentrau mewnol ac allanol, a fydd yn llywio cyfeiriad y Coleg i'r dyfodol, ei ystod o wasanaethau i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau a'i gysylltiadau â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r dyheadau sy'n cael eu cyflwyno yn ein Cynllun Strategol ac wrth gefnogi dogfennau strategol.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu ac uwchsgilio yr holl staff yn parhau ac ar gyfer 23/24 rydym wedi adnabod tri phrif thema datblygiad:

- 'Pan mae Oedolion yn Newid' - hyrwyddo arfer perthynol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Ymwybyddiaeth Seibr

Rydym yn parhau i ddatblygu ein Partneriaeth Gymdeithasol a gan ein bod bellach wedi cynnwys yr holl aelodau allweddol Partneriaeth Gymdeithasol y coleg mewn dwy sesiwn datblygu benodol rydym yn hyderus y bydd gweithio yn y ffordd yma yn sicrhau cyfathrebiadau a phroses o wneud penderfyniadau mwy cydlynol ac effeithiol.

Yn 2023/24 byddwn yn parhau gyda'n trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch perfformiad yn erbyn methodoleg targed ariannu ac ariannu yn y dyfodol.
Mae'r bartneriaeth Ardal Wybodaeth Casnewydd gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn parhau, ac mae'r prosiect yn rhan bwysig o gynlluniau datblygiad ar gyfer y dyfodol y ddinas. Mae'r prosiect yn parhau i wneud cynnydd cyson ac mae'r Coleg wedi ymgymryd â Chytundeb Partneriaeth Strategol i gyflawni'r prosiect drwy'r llwybr ariannu Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae pwysau chwyddiant yn cael effaith ar fforddiadwyedd ond byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn cynnal momentwm ac i sicrhau bod y prosiect yn symud yn ei flaen. Rydym wedi cyflwyno Cais Prosiect Newydd (NPR) yn ddiweddar sydd nawr yn cyflwyno ein prosiect yn llif gwaith prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar hyd a lled Cymru.

Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ailddatblygu ein campws yn Crosskeys drwy ymarfer prif gynllunio cydnerth fydd yn ffurfio craidd ein cynllun datblygu Ystâd 9 mlynedd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i chwarae rôl allweddol yn dylanwadu ar yr agenda sgiliau ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Pennaeth yn parhau i gynrychioli'r sector mewn gwahanol banelau rhanbarthol ac yn sicrhau bod llais y Coleg yn cael ei gynrychioli ar y lefel ranbarthol.

Rydym hefyd yn parhau i chwarae rhan weithredol mewn gwahanol rwydweithiau Colegau Cymru, gan sicrhau bod cyfathrebu da yn cael ei gynnal â swyddogion Llywodraeth Cymru. Mewn cyfnod pan ydym yn rhagweld diwygiadau deddfwriaethol sylweddol yn y sector Ôl-16, rydym yn parhau i sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed ac yn cael ei gynnwys yn y broses o siapio'r newidiadau hynny a dylanwadu arnynt.


Er mwyn paratoi ar gyfer ymddeoliad Guy Lacey, Pennaeth a Phrif Weithredwr, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cytuno i newidiadau i'r Tîm Corfforaethol ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda'r nod o gynyddu capasiti ar lefel uwch a chreu cynllun dilyniant arweinyddiaeth mwy cydnerth.

Bydd yr Is-bennaeth Cwricwlwm ac Ansawdd yn dod yn Ddirprwy Bennaeth. Yn ogystal, byddwn yn penodi Is-bennaeth newydd fydd yn gyfrifol am bartneriaethau a thaith y dysgwr. Bydd y rôl allweddol hon yn helpu i sicrhau bod y Coleg yn darparu profiad dysgwr a chyflogwr rhagorol o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd nes y byddant yn gorffen eu cwrs.

Bydd y ddau Is-bennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn rheoli'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn uniongyrchol, a fydd hefyd yn gweld rhai newidiadau strwythurol.

**PERTHYNAS GYDA RHANDDEILIAID**

Fel y gwelir o'r naratif flaenorol, mae'r Coleg wedi gweithio'n galed i sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol â rhanddeiliaid:




Cydnabyddwn fod ymgysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ymgysylltiad effeithiol yn ein helpu ni i ddeall go iawn anghenion ein rhanddeiliaid a chyd-fynd â nhw o ran nodau ein sefydliad a datblygiad strategaeth. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu nifer o enghreifftiau o'n hymgysylltiad effeithiol â phartneriaid allweddol, ac ymfalchïwn yn y perthnasoedd cynhyrchiol yr ydym wedi'u datblygu sydd o fudd i'n dysgwyr.

**DATGANIAD Y CORFF LLYWODRAETHU AR REOLEIDD-DRA, PRIODOLDEB A CHYDYMFFURFIAETH Y COLEG AG AMODAU A THELERAU CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU.**

Mae'r Gorfforaeth wedi ystyried ei chyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru o anghysondeb, amhriodoldeb ac anghydffurfiaeth briodol â thelerau ac amodau cyllid Llywodraeth Cymru, dan y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Cyllid sydd wedi'u sefydlu rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Cyllid.

Rydym yn cadarnhau nad ydym wedi darganfod unrhyw achos o anghysondeb, amhriodoldeb nag anghydffurfiaeth briodol mewn perthynas â chyllid hyd yn hyn. Os caiff unrhyw achos ei adnabod ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd hwn yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru.

**Llofnod:** ______________________ **Llofnod:** ______________________
**Cadeirydd** **Pennaeth/Prif Weithredwr**

## DATGANIAD AR LYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo darllenydd y cyfrifon i ddeall sut mae egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector AB) wedi'u cymhwyso. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i arfer orau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac yn gweithredu gan roi sylw dyledus i God Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r Gorfforaeth hefyd wedi mabwysiadu ac wedi cydymffurfio gyda'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru, y mae copi ohono wedi'i ddarparu i bob Aelod Corfforaethol pan gawsant eu penodi. Mae'r Gorfforaeth yn adolygu ei gydymffurfiad gyda'r Cod yn flynyddol. Yn ogystal, mae pob Llywodraethwr yn llofnodi i gadarnhau eu hymrwymiad i God Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadau. Mae'r ddogfen hon yn diogelu'r saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb; uniondeb; gwrthrychedd; atebolrwydd; natur agored; gonestrwydd ac arweinyddiaeth ac yn darparu canllawiau ar y safonau sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

Ym marn y Llywodraethwyr, mae Coleg Gwent yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector addysg bellach, a'i fod wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

Mae'r Coleg yn elusen a eithrir o fewn Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr (sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011), yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos yn rhan arall o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

### Y Bwrdd Corfforaethol

Mae'r aelodau a wasanaethodd ar y Bwrdd Corfforaethol (Y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023 wedi'u cynnwys yn y tabl ar dudalen 31. Mae yna elfen annibynnol gref ac mae'r Bwrdd o'r farn fod pob un o aelodau anweithredol yn annibynnol oddi ar y rheolwyr ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn sylweddol ar y ffordd mae'n defnyddio ei feirniadaeth annibynnol.

Mae rhaniad amlwg yn y cyfrifoldebau o ran bod rolau'r Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr ar wahân a bod yr holl Lywodraethwyr yn cydnabod ac yn deall y gwahaniaeth rhwng eu rôl yn llywodraethu a'r hyn sy'n ofynnol o ran rheolaeth y coleg. Mae Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Gorfforaeth wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n llawn ym mis Mai 21 yn adnabod yn glir y cyfrifoldebau na ddylid eu dirprwyo, ynghyd â'r rhai sydd wedi eu dirprwyo'n benodol i'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Amserlen Ddirprwyo darparu eglurder a chysondeb i ddirprwyo'r broses o wneud rhai penderfyniadau i bwyllgorau neu, lle mae'n briodol, i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw cymhwyso beirniadaeth annibynnol i faterion o natur addysgol, ariannol, cynaliadwyedd, strategol, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad. Darperir y Bwrdd â gwybodaeth reolaidd ac amserol ynghylch perfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, megis perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol, materion ansawdd, cynigion gwariant cyfalaf a materion adnoddau gweithredol (gan gynnwys adnoddau dynol, amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol). Rhoddwyd agendâu ffurfiol a'r holl papurau cyfarfod i Lywodraethwyr yn brydlon, cyn bob cyfarfod. Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith yn 2022/23.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei fusnes gyda chefnogaeth is-bwyllograu ac mae wedi cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r rhain. Yn ystod 2022/23, roedd y pwyllgorau hyn fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
- Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae pob pwyllgor yn darparu'r Bwrdd gydag adroddiad yn amlinelli'r busnes y delir ag ef a'r pwyllgor mwyaf diweddar. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu unrhyw feysydd sy'n achosi pryder ac yn cyflwyno penderfyniadau sy'n cael eu hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Darperir cofnodion drafft a phapurau perthnasol hefyd er gwybodaeth.

## Penodiadau

Mae penodi Llywodraethwyr ac Aelodau Allanol yn ddibynnol ar gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Mae'r pwyllgor hwnnw yn gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio a dethol a bydd yn cwrdd gyda deiliaid posib y swydd cyn gwneud ei argymhellion i'r bwrdd.

Heblaw am y Pennaeth/Prif Weithredwr a'r tri Myfyriwyr-lywodraethwyr, mae pob aelod yn cael ei benodi am dymor o dair blynedd yn y swydd. Mae'n bosibl eu hail-benodi i wasanaethu hyd at uchafswm o dri thymor, neu naw mlynedd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod uchafswm o 9 mlynedd o wasanaeth yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r coleg, yn sicrhau parhad o fewn y gwaith arwain, ac yn rhoi cyfle i gyflwyno syniadau a safbwyntiau newydd o bryd i'w gilydd. Mae'r Myfyrwyr-Lywodraethwyr i gyd yn gwasanaethu tymor o un flwyddyn y gellir ei ymestyn ar ddisgresiwn y Gorfforaeth. Gall Myfyrwyr-Lywodraethwyr wasanaethu o fewn y swydd am uchafswm o dair blynedd.

Mae ail-benodi aelodau yn fater i'r Bwrdd cyfan ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Nid yw'r broses o ail-benodi yn digwydd yn awtomatig ac mae'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys adolygiad o gyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb y Llywodraethwr, ynghyd ag anghenion o ran blaenoriaethau a sgiliau y Gorfforaeth gyfan ar y pryd hwnnw.

## Amrywiaeth o fewn y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl yn arwain y coleg i ddod yn gymuned fwy amrywiol a chynhwysol. Nod y coleg yw bod yn rhywle lle mae pawb yn cael ei groesawu a lle mae pawb yn gallu bod yn nhw eu hunain mewn amgylchedd gefnogol sy'n dangos parch. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd. Mae'r Datganiad hwn yn cydnabod yr angen i arwain drwy esiampl drwy ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bopeth mae'r Bwrdd yn ei wneud a phob penderfyniad a wneir ganddo. Mae'r Bwrdd hefyd o'r farn y bydd ystod fwy amrywiol o Lywodraethwyr yn cyflwyno safbwyntiau newydd ac yn gwella safon y drafodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd yn cyflwyno nifer o ymrwymiadau mewn perthynas â hyn.

Mae Llywodraethwyr yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol ar faterion yn ymwneud ag Amrywiaeth. Yn ystod 2022/23 fe wnaethant hefyd ymuno gyda staff y coleg wrth ddod y Coleg Addysg Bellach cyntaf yng Nghymru i gwblhau'r holl hyfforddiant Gwrth-hiliol a hwyluswyd gan Race Council Cymru mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau sicrwydd rheolaidd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae Llywodraethwr Cyswllt yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Coleg. Mae'r Swyddog Llywodraethu hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio ac mae'n cadeirio'r Grŵp Cyswllt Staff sydd Wedi'u Galluogi a Staff Niwrowahanol. Bu i'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth ymuno gyda'r Llywodraethwr Cyswllt yng nghyfarfod Mehefin 2023 o'r Grŵp Llywio er mwyn cyflwyno Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd.

Adolygwyd a diweddarwyd prosesau recriwtio'r Bwrdd. Mae dull newydd, mwy cynhwysol wedi cynorthwyo i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr yn barod. Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n goruchwylio'r broses recriwtio ac yn adolygu a chynghori'r Bwrdd ar ei broffiliau sgiliau ac amrywiaeth yn gyson.

**Perfformiad y Bwrdd**

Mae Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth yn cael eu hadolygu'n llawn bob tair blynedd. Cynhaliwyd adolygiad o'r fath ddiwethaf ym mis Mai 2021 ac roedd yn cynnwys craffu gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Coleg. Yn ogystal mae Cylch Gorchwyl pob un o'r is-bwyllgorau'n cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y Coleg neu'r sector sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth a gwelliant parhaus wrth lywodraethu'r coleg. Mae Llywodraethwyr yn cwblhau hunan-asesiad blynyddol o berfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor. Mae'r broses hon yn cynnwys y cyfle i Lywodraethwyr unigol fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain a'u hanghenion datblygiad. Mae cyfarfodydd un wrth un gyda'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn darparu cyfleu i Lywodraethwyr unigol drafod eu perfformiad a'u hanghenion o ran datblygiad. Cafodd dadansoddiad o ymatebion hunan-asesiad llywodraethiant ei adolygu gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022 a chytunwyd ar nifer o gamau gweithredu. Roedd yr wybodaeth hefyd yn llywio adran Llywodraethiant Adroddiad Hunan-Asesu'r Coleg.

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiadau o strwythur y llywodraethiant o bryd i'w gilydd. Ffurfiwyd gweithgor ym mis Ebrill 2023 i adolygu strwythur y pwyllgor a phrosesau'r Bwrdd. Rhoddodd y gweithgor ystyriaeth fanwl i ba raddau mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol a lle gellir gwneud gwelliannau pellach. Rhoddwyd ystyriaeth i wybodaeth meincnodi ar strwythurau a phrosesau'r Bwrdd mewn colegau eraill ac ar draws sectorau eraill. Bu i'r gweithgor rannu ei ganfyddiadau ac argymhellion gyda'r Bwrdd mewn seminar a gynhaliwyd ym mis Medi 2023 a bydd nifer o newidiadau yn cael eu cyflwyno drwy gydol 2023/24.

Gan ddilyn cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod anwythiad a datblygiad priodol yn cael eu darparu i aelodau. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad yr unigolyn o'u sgiliau, adolygiad o broffil sgiliau'r Bwrdd cyfan ac adborth a gasglwyd drwy'r holiadur hunan-asesiad blynyddol. Caiff anghenion hyfforddiant eu hystyried yn flynyddol gan bob pwyllgor.

Mae gan bob Llywodraethwr y cyfle i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad mewn perthynas â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt fynediad at ystod eang o adnoddau electronig sy'n cynnig arweiniad ac mae pob un yn cwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol ar-lein yn seiliedig ar Ddiogelu, Atal, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal, bu i'r Llywodraethwyr fynychu dau Seminar Strategaeth yn ystod 2022/23 oedd yn cynnwys briffio a chyfleoedd datblygu o amgylch diogelwch seibr, nodweddion addysgiadol, tueddiadau ariannu ac ariannol, tueddiadau recriwtio dysgwyr a Phrif Ddangosyddion Perfformiad. Yn ystod y flwyddyn cymerodd y Llywodraethwyr ran mewn hyfforddiant Gwrth-hiliol a chyfranogi mewn sesiwn briffio ar-lein gan swyddogion Lywodraeth Cymru ar ddatblygiadau'n berthnasol i weithredu'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Er mwyn cefnogi eu datblygiad ymhellach, anogir Llywodraethwyr i gymryd rhan mewn ymweliadau i'r campws ac i fynychu digwyddiadau ar draws y coleg. Yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd pan oedd ymweliadau ar y safle yn gyfyngedig, croesawodd y Llywodraethwyr y cyfle yn 2022/23 i ymgysylltu gydag amrywiaeth o wahanol digwyddiadau rhanddeiliaid yn cwmpasu Anghenion Dysgu Ychwanegol, Ymgysylltu gyda Chyflogwyr, Prentisiaethau ac Ymchwil Weithredol mewn Addysg Bellach. Bu i Lywodraethwyr fynychu arddangosfeydd, perfformiadau a digwyddiadau gwobrwyo drwy gydol y flwyddyn yn ogystal.

**Swyddog Llywodraethu**

Gall pob Llywodraethwr gael mynediad at y Swyddog Llywodraethu, sy'n cynghori'r Bwrdd ar broses ac sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am benodi, gwerthuso a chael gwared ar y Swyddog Llywodraethu.

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn dal tystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n ymgymryd â hyfforddiant perthnasol yn flynyddol ac yn 2022/23 roedd hyn yn cynnwys:

- Diogelu ac Atal
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Anabledd yn y gweithle
- Gwrth-hiliaeth
- Amrywiaeth o fewn y bwrdd

Mae'r Swyddog Llywodraethu hefyd yn cyfranogi mewn sesiynau hyfforddiant rheolaeth traws-golegol ac yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Addysg Bellach Cymru.

| Enw | Dyddiad penodi/ Ail-benodi | Cyfnod yn y Swydd (Blynyddoedd) | Statws | Pwyllgorau a wasanaethwyd* | Presenoldeb yn 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mark Langshaw MBE<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr | 01.08.2016<br>01.08.2019 *Ail-benodwyd.*<br>01.08.2022 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | F,G,R<br>(Cadeirydd) | B -75%<br>F - 100%<br>G - 100%<br>R - 100% |
| Guy Lacey | 01.08.2015 | Amh | Pennaeth/ Prif Weithredwr | C, F, G | B - 100%<br>C - 50%<br>F - 100%<br>G - 80% |
| Susan Ball<br>Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | 01.04.2018<br>01.04.2021 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | G (Cadeirydd), R | B - 100%<br>G - 80%<br>R - 100% |
| Anthony Basnett | 01.01.2018<br>01.01.2021 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | F (Cadeirydd) | B - 50%<br>F - 100% |
| Moawia Bin-Sufyan | 01.01.2022 | 3 | Annibynnol | F | B - 50%<br>A - 67% |
| Elizabeth Brimble | 01.06.2019<br>01.06.2022 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | C | B - 75%<br>C - 100% |
| Andrew Clark | 24.02.2021 | 3 | Annibynnol | F | B - 100%<br>F - 100% |
| Delyth Evans | 10.10.22 | 3 | Annibynnol | C | B -100%<br>C - 67% |
| Jamie Farr | 24.02.2021 | 3 | Annibynnol | C | B - 25%<br>C - 50% |
| Rhiannon Fowler | 01.01.2022 | 3 | Disgownt<br>*(Cymorth Busnes)* | F | B - 50%<br>F - 100% |
| Eva Franklin | 01.02.2023 | 1<br>Wedi'i ymestyn i 30.03.2024 | Myfyriwr (AB) | C | B - 67%<br>C - 50% |
| Christopher Freegard[1] | 01.01.2020<br>01.01.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | A, G | B - 75%<br>A - 100%<br>G - 60% |
| Bailjit Gill | 01.06.2022 | 3 | Annibynnol | F | B - 75%<br>F - 75% |
| Johnathan Hooper | 01.01.2022<br>31.12.2023 *Wedi ymddeol* | 1 | Myfyriwr (AU) | C | B - 0<br>C - 0 |
| Claire Lloyd | 01.02.2023 | 1<br>Wedi'i ymestyn i 30.03.2024 | Myfyriwr (AU) | C | B - 67%<br>C - 50% |
| Ray Morrison | 01.08.2018<br>01.08.2021 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | G, R | B - 75%<br>G - 100%<br>R - 100% |
| John Phelps | 01.06.2019<br>01.06.2022 *Ail-benodwyr.* | 3 | Annibynnol | Ff | B - 100%<br>A - 100% |
| Matthew Preece | 01.01.2020<br>01.01.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | F | B - 75%<br>C - 67% |
| Wendy Rogers | 01.08.2018<br>01.08.2021 *Ail-benodwyd.* | 3 | Staff<br>*(Addysgu)* | C | B - 50%<br>C - 75% |
| Shannon Sheean | 23.03.2022 | hyd 31.07.2023 | Myfyriwr (AB) | G | B - 100%<br>C - 25% |
| Elizabeth Swaffield | 01.06.2017<br>01.06.2020 *Ail-benodwyd.*<br>01.06.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | C (Cadeirydd) | B - 50%<br>C - 100% |
| Martin Veale | 01.04.2015<br>01.05.2018 *Ail-benodwyd.*<br>01.04.2021 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | A (Cadeirydd), R | B - 50%<br>A - 100%<br>R - 100% |
| Gareth Watts | 10.10.2022<br>DS: Cyn Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | 3 | Annibynnol | F | B - 50%<br>F - 75% |

* **B** = Bwrdd; **A** = Arwchilio; **C** = Cwricwlwm ac Ansawdd; **F** = Cyllid ac Adnoddau **G** = Llywodraethiant ac Aelodaeth; **R** = Tâl Cydnabyddiaeth

[1] Gwasanaethodd C Freegard fel Llywodraethwr rhwng Mehefin 2009 a Gorffennaf 2017

Dyma'r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar bwyllgorau'r Gorfforaeth yn ystod y cyfnod:

| Enw | Dyddiad Penodi/ Ail-benodi | Cyfnod yn y Swydd (Blynyddoedd) | Statws | Pwyllgorau a wasanaethwyd | Presenoldeb yn 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rafiu Ajayi | 01.04.2023 | 3 | Yn annibynnol ac yn allanol | A | 100% |
| Farishna Chohan-Solanki | 01.04.2023 | 3 | Yn annibynnol ac yn allanol | A | 100% |
| Dorota Lee | 01.06.2021 | 3 | Yn annibynnol ac yn allanol | A | 75% |
| Gareth Watts | 01.11.2015<br>01.12.2018 *Ail-benodwyd.*<br>01.12.2021 *Ail-benodwyd.*<br>09.10.2023 Ail-benodwyd. Fel Llywodraethwr | 3 | Annibynnol Allanol | A | Amherthnasol |

**PWYLLGORAU'R GORFFORAETH**

**Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd**

Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwylio perfformiad a datblygiadau allweddol ym mhob maes sy'n berthnasol i ansawdd yr addysg a chymorth i ddysgwyr ac ar draws darpariaeth llawn amser, rhan amser, prentisiaeth a darpariaeth yn y gymuned. Mae'n monitro cynllunio a darparu'r cwricwlwm, yn ogystal â chynnydd ar weithredu'r Strategaethau Addysgu a Dysgu, Cwricwlwm a Sgiliau a Chyfadran. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu diweddariadau cyson ar recriwtio, cadw, presenoldeb, asesu a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae meysydd goruchwylio eraill yn cynnwys ymwneud myfyrwyr, Diogelu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys deg aelod, gan gynnwys y Llywodraethwr Staff Addysgu a thri Myfyriwr-Lywodraethwr. Mae aelodau perthnasol o'r uwch dîm rheoli yn mynychu'r holl gyfarfodydd. Yn 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith.

**Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cynnig cyngor i'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad ar faterion yn ymwneud â rheoli cyllid, adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd prosiectau cyfalaf mawr.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys saith aelod, yn cynnwys y Llywodraethwr Staff Cymorth Busnes a Chadeirydd y Gorfforaeth. Ni all yr un aelod o'r Pwyllgor Archwilio wasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022/23 a bu i aelodau perthnasol yr uwch dîm rheoli fynychu'r holl gyfarfodydd.

**Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu**

Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth y Gorfforaeth gan gynnwys recriwtio, rheoli perfformiad, datblygu Llywodraethwyr a

chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ynghylch ei gyfansoddiad a materion llywodraethu ehangach yn cynnwys goblygiadau newid mewn deddfwriaeth ac ymgynghoriadau cenedlaethol ar lywodraethu Addysg Bellach. Mae hyn yn cynnwys monitro cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r Comisiwn ar Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) newydd.

Yn ystod 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth bum gwaith ac argymell penodiad dau Lywodraethwr annibynnol newydd, dau Fyfyriwr-Lywodraethwr a dau Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

Mae'r pwyllgor cynghori hwn yn cael ei gadeirio gan Mr Langshaw fel Cadeirydd y Llywodraethwyr ac mae'n cynnwys yr Is-gadeirydd a dau Lywodraethwr Annibynnol arall. Fel arfer, mae'r pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â chyflogau, amodau a thelerau a pherfformiad y pedwar deiliad swyddi uwch (y Pennaeth, dau Is-bennaeth a'r Swyddog Llywodraethu). Mae gwybodaeth berthnasol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol deiliaid swyddi uwch ar gael yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Yn 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gwnaed argymhelliad i'r Bwrdd i godi cyflog y Swyddog Llywodraethu. Gwnaed hyn wedi adolygiad manwl o'r rôl gyda chymorth Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y coleg. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022. Ataliwyd yr ystyriaethau eraill tan y cytunir yn derfynol ar Gydnabyddiaeth Tâl Blynyddol Staff.

Wrth ystyried tâl Deiliaid Swyddi Uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried nifer o ffactorau yn cynnwys perfformiad, data meincnodi priodol ac unrhyw gydnabyddiaeth tâl ddiweddar a gafwyd gan staff. Yn dilyn y casgliad ar drafodaethau cyflog cenedlaethol, bu i'r pwyllgor gwrdd eto ym mis Mehefin 2023 a gwnaed argymhelliad i roi cydnabyddiaeth i'r Deiliaid Swyddi Uwch ar yr un sail â'r hyn a roddwyd i'r holl staff. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023.

**Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr a thri aelod allanol o'r Gorfforaeth. Mae gan nifer o aelodau'r pwyllgor brofiad uniongyrchol ac arbenigedd mewn cyfrifyddu, archwilio, rheolaeth fewnol neu reoli risg.

Nid yw aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Yn ogystal, ni all Llywodraethwr Staff a Myfyrwyr-Lywodraethwyr ynghyd ag aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wasanaethu ar y pwyllgor. Mae'r Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r holl gyfarfodydd drwy wahoddiad, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r Cylch Gorchwyl yma yn adlewyrchu gofynion y Memorandwm o Ddealltwriaeth Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Cholegau AB a'r arferion gorau sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor a chawsant bedwar cyfarfod yn 2022/23.

Y presenoldeb cyffredinol ar gyfer y flwyddyn oedd 96%:

| Aelod | 16/11/21 | 15/02/22 | 06/04/22 | 13/07/22 | Presenoldeb | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| M Veale | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100% | |
| S Ball | ✓ | | | | | Cyfethol yn dibynnu ar recriwtio |
| M Bin-Sufyan | | ✓ | x | ✓ | 67% | |
| C Freegard | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100% | |
| J Phelps | | ✓ | ✓ | ✓ | 100% | |
| R Ajayi | | | ✓ | ✓ | 100% | |
| F Chohan-Solanki | | | ✓ | ✓ | 100% | |
| D Lee (Est) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100% | |
| G Watts (Est) | | | | | | Penodwyd yn Llywodraethwr ar 10.10.23 a newidiodd y pwyllgor roedd yn gwasanaethu arno. |
| Cyfanswm o fynychwyr | 4 | 5 | 6 | 7 | | |
| Mynychwyr posibl | 4 | 5 | 7 | 7 | | |
| % Presenoldeb | 100% | 100% | 86% | 100% | **96%** | |

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi fforwm ar gyfer adrodd gan archwilwyr mewnol ac allanol y Coleg. Mae gan y ddwy set o archwilwyr fynediad yn uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor a thrafodaethau preifat (ac eithrio rheolwyr a Swyddog Llywodraethu'r Coleg) yn cael eu cynnal rhwng yr archwilwyr a'r pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cymru gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn monitro'r systemau rheolaeth mewnol, y rheolyddion rheoli risg a'r prosesau llywodraethu yn unol â chynllun cytunedig ac yn adrodd eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio cytunedig ac mae archwilwyr mewnol y Coleg yn ymgymryd ag adolygiadau dilynol bob hyn a hyn i sicrhau bod yr holl argymhellion wedi'u gweithredu. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn diweddariad ar gynnydd yn rhoi argymhellion archwilio ar waith ym mhob cyfarfod.

Mae gan y Coleg fframwaith rheoli risg cadarn sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd yn trafod risgiau allweddol yn flynyddol cyn cymeradwyo Cofrestr Risgiau'r Gorfforaeth ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu diweddariad yn erbyn y Gofrestr ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhan o drafodaethau rheolaidd ynghylch risgiau allweddol a newydd ac mae'n cadw'n gyfredol gyda datblygiadau yn y coleg a'r sector drwy adroddiadau rheolaidd gan y Pennaeth. Mae' adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd gan y rheolwyr yn cynnwys dadansoddiad o'r lefelau risg sy'n gysylltiedig gyda'r mater sydd i'w drafod.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynghori'r Bwrdd Corfforaethol ar benodi archwilwyr mewnol ac allanol a'u cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer gwaith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio. Dyfarnwyd pob contract drwy ymarfer tendro priodol. Yn dilyn ymestyn y ddau gontract yn 2020/21, cynhaliwyd ymarfer profi'r farchnad yng ngwanwyn 2022. O ganlyniad, dyfarnwyd y contract Archwilio Mewnol i TIAA am gyfnod o dair blynedd.

Gan na dderbyniwyd unrhyw dendrau ar gyfer y contract Archwilio Allanol, bu i'r Coleg wahodd PwC, fel y darparwr presennol, i gyflwyno cynnig oddi allan i'r broses Dendro (o fewn canllawiau caffael y sector gyhoeddus). Yn dilyn hyn bu i'r Bwrdd gymeradwyo cytundeb newydd yn penodi PwC fel Archwilwyr Allanol y Coleg am gyfnod o dair blynedd arall. Disgwylir i'r ddau gontract gael eu hadolygu nesaf yng ngwanwyn 2025.

## Rheolaeth fewnol

### Cwmpas cyfrifoldeb

Yn y pendraw, y Bwrdd sy'n gyfrifol am system rheolaeth fewnol y Coleg ac am adolygu ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i dylunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a gall ddarparu lefel resymol o sicrwydd yn hytrach na sicrwydd absoliwt yn erbyn cam-ddatgan neu golli deunydd.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb bob dydd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol i'r Pennaeth/Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol. Rhaid iddo sicrhau bod y system reoli yn cefnogi i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, gan ddiogelu hefyd y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'n gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau y neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Coleg Gwent. Mae hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Gorfforaeth yn brydlon unrhyw wendid neu fethiant perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

**Diben y system rheolaeth fewnol**

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach nag absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses gyfredol sydd wedi'i chynllunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, gwerthuso tebygoliaeth y risgiau hynny'n digwydd go iawn a'u heffaith petai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn lle yn Coleg Gwent ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol.

**Capasiti i ymdrin â risg**

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Coleg wedi'i amlygu iddynt gyda'r rheolyddion gweithredu, ariannol a chydymffurfiaeth sydd wedi'u gweithredu i liniaru'r risgiau hynny. Barn y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, yw bod proses gyfredol ffurfiol, briodol wedi bod ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Coleg. Roedd hyn yn cynnwys risgiau newydd a risgiau nas gwelwyd hwy o'r blaen oedd wedi codi o ganlyniad i bandemig Covid-19.

**Y fframwaith risg a rheoli**

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr sydd â chyllideb flynyddol a gaiff ei hadolygu a'i chytuno gan y corff llywodraethu

- Adolygiadau rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, sy'n dangos perfformiad ariannol y Coleg a'i gydrannau yn erbyn rhagolygon

- Gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fesur perfformiad ariannol ac eraill

- Mae Grŵp Monitro yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chytuno camau gweithredu adferol pryd bynnag mae angen

- Canllawiau rheoli buddsoddiad cyfalaf clir
- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol (pryd bynnag sy'n briodol)
- Adroddiadau ar gynnydd o ran monitro risg, yn seiliedig ar y gofrestr risgiau, yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a ddarparwyd i'r Coleg gan TIAA Ltd. yn gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn cael ei amlygu iddynt, ac mae'r cynllun archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynllun archwilio mewnol eu cefnogi gan y Bwrdd yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Archwiliwr Mewnol yn darparu'r Bwrdd ag Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau archwilio mewnol yn y Coleg. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ynghylch manwl gywirdeb ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, rheolyddion a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

**Adolygiad o effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Atebol, cyfrifoldeb y Pennaeth/Prif Weithredwr yw adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar:

- waith yr archwilwyr mewnol;
- mae gwaith aelodau eraill Tîm Rheolaeth Gorfforaethol y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol; a
- sylwadau gan archwilwyr allanol y Coleg ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli a'u hadroddiadau eraill.

Mae'r Pennaeth wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr archwiliwr mewnol a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod gwelliant parhaus y system wedi'i sefydlu.

Mae'r Tîm Rheolaeth Corfforaethol yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risgiau allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddygir at eu sylw drwy fecanweithiau rhybuddion cynnar, sydd wedi'u mewnosod yn yr adrannau a'u cryfhau gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwiliadau mewnol, sy'n cynnwys argymhellion am welliannau. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i chyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol ac unrhyw ymateb i'r argymhellion a wneir gan yr archwiliwr mewnol. Mae agenda'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys eitem reolaidd i ystyried risg a rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys diweddariad cynnydd ar weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r pwyslais ar gael y radd berthnasol o sicrwydd, yn hytrach nag adrodd drwy eithriad. Cynhaliodd y Bwrdd yr asesiad blynyddol ar gyfer 2022/23 drwy ystyried dogfennaeth gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, archwiliadau mewnol ac allanol, y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Llywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi darparu Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd gan fanylu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi bod yn sail i'w ddatganiad sicrwydd i'r Gorfforaeth ynghylch effeithiolrwydd strwythurau Rheoli Risg, Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol y

Coleg. Yn ei adroddiad i'r Bwrdd a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2023, cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio ei farn yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith y gwasanaethau archwilio, roedd yn fodlon bod prosesau rheoli risgiau, rheoli a llywodraethu corfforaethol Coleg Gwent, ynghyd â'i systemau, ei reolaeth a'i wiriadau mewnol, yn effeithiol ac yn ddigonol i alluogi'r coleg i fodloni ei amcanion, cyn belled ag y gellir ei bennu'n rhesymol. Nododd y pwyllgor na all sicrwydd o'r fath byth fod yn absoliwt.

**Cwmni sy'n parhau**

Ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol, mae'r Gorfforaeth yn credu bod gan y Coleg yr adnoddau priodol i barhau i fodoli'n weithredol hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r statws cwmni sy'n parhau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**Llofnod:** ______________________
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad:-**

**Llofnod:** ______________________
**Pennaeth/Prif Weithredwr**

**Dyddiad:-**

## DATGANIAD AR GYFRIFOLDEBAU AELODAU O'R CORFF LLYWODRAETHU

Mae'n ofynnol i aelodau'r Corff Llywodraethu gyflwyno datganiad ariannol wedi'i archwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn amodau a thelerau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r Coleg, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredol ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Datganiad o'r Arfer Argymelledig – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau Addysg Bellach yng Nghymru, ac Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Genedlaethol yn y DU, ac sy'n rhoi safbwynt clir a theg o gyflwr materion y Coleg a'i warged neu ddiffyg incwm mewn cymhariaeth â'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- ffurfio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus
- nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol y DU wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriad o'r arfer yn cael ei ddatgelu a'i egluro yn y datganiadau ariannol
- asesu a yw'r coleg yn fusnes sy'n parhau, gan nodi'r rhagdybiaethau ategol, cymwysterau neu gamau gweithredu lliniaru allweddol, fel sy'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd)
- paratoi datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Coleg yn parhau i weithredu

Mae'n ofynnol hefyd i'r Corff Llywodraethu baratoi Adroddiad y Corff Llywodraethu yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 o'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer AB ac AU, sy'n disgrifio'r hyn mae'n ceisio ei wneud a sut mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy'n ei galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r deddfwriaethau perthnasol, gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu ei asedau ac atal ac adnabod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am gynnal a chadw a uniondeb ei wefannau; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli gwaith paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaethau awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu cymhwyso at ddibenion bwriadedig Llywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac unrhyw gyllid cyhoeddus arall, yn cael eu defnyddio'n unig yn unol â'r Memorandwm Ariannol â Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill y gellir eu cyflwyno o bryd i'w gilydd gan Gyfarwyddyd Cyfrifyddu Colegau Addysg Bellach yng Nghymru 2022/23 Llywodraeth Cymru Fersiwn 1.0 Tudalen 11 o 16 neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall. Rhaid i aelodau sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheolaeth briodol ar waith er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill i sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae

Aelodau'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg, fel nad yw buddion y dylid eu cyflawni wrth ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cael eu rhoi mewn risg.

Cymeradwywyd y gorchymyn gan aelodau'r Corff Llywodraethu ar [dyddiad] a llofnodwyd ar eu rhan gan:

____________________________________________

**Mr Mark Langshaw MBE**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFFORAETH COLEG GWENT
***(y "sefydliad")***

### Adroddiad ar archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol Coleg Gwent (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y sefydliad fel yr oeddynt ar 31 Gorffennaf 2023, ac incwm a gwariant a llifau arian y sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cwmpasu FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a chyfraith berthnasol);

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad o Arfer Argymelledig - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chanllaw Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cwmpasu'r Mantolenni fel yr oeddynt ar 31 Gorffennaf 2023; y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr a, Datganiadau o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn a Datganiadau Llifau Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

#### Sail y farn

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn amodol.

#### Annibyniaeth

Gwnaethom barhau i fod yn annibynnol oddi ar y sefydliad yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

#### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r sefydliad i barhau fel cwmni sy'n parhau am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad fod defnydd y Gorfforaeth o sail cyfrifyddu cwmni sy'n parhau wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Wedi dweud hynny, gan na ellir rhagweld digwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r casgliad hwn yn gwarantu gallu'r sefydliad i barhau fel cwmni sy'n parhau.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Gorfforaeth mewn perthynas â chwmni sy'n parhau yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilwyr ar hynny. Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi unrhyw farn archwilio nac unrhyw fath o sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu fod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol. Os ydym yn adnabod anghysondebau perthnasol neu gam-ddatgan perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau i bennu a oes cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatgan perthnasol o'r wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith yr ydym wedi'i wneud, y byddwn yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r cyfrifoldebau hyn.

## Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

### Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth, y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn gywir a theg. Mae'r Gorfforaeth hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath fel y mae'n credu sy'n hanfodol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau fel cwmni sy'n parhau, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â chwmni sy'n parhau a defnyddio'r cyfrifon cwmni sy'n parhau oni bai bod y Gorfforaeth naill ai'n bwriadu diddymu'r sefydliad neu beidio gweithrediadau, neu os nad oes dewis realistig arall heblaw am wneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwilwyr am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd ar lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn ôl Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob tro pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiad gyda deddfau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Gweler manylion isod ynghylch i ba raddau mae ein gweithdrefnau yn gallu adnabod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r sefydliad /diwydiant, rydym wedi adnabod y prif risgiau yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a deddfwriaeth cyflogaeth y DU ynghyd â'r Memorandwm Ariannol rhwng y sefydliad a Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi ystyried y graddau y gallai diffyg cydymffurfio ei gael o ran effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, megis y Canllaw Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer

twyllo'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y risg o wrth-wneud rheolyddion), a phennu bod y prif risgiau yn ymwneud â thrafodion twyllodrus wedi'u bwriadu i orbwysleisio perfformiad a sefyllfa ariannol y sefydliad. Roedd y gweithdrefnau archwilio a wnaethpwyd yn cynnwys:

- Adolygu cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau a chael trafodaethau gyda rheolwyr, gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a ddrwgdybir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll;
- Defnyddio technegau archwilio ar gyfrifiaduron i adnabod a phrofi cyfnodolion â llaw risg uwch, yn enwedig y rheiny sydd â chyfuniadau cyfrifon anarferol;
- Adolygu pa mor briodol yw'r tybiaethau a ddefnyddir gan y grŵp i amcangyfrif gwerth diffygion y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio; a
- Chaffael cadarnhad gan drydydd parti o holl drefniadau bancio a chyllido'r grŵp.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a nodir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau nad oes ganddynt gysylltiad agos â digwyddiadau a thrafodion sydd wedi'u hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. Mae’r risg o beidio â darganfod camddatganiadau perthnasol sy’n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer rhai yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll olygu bod cuddio bwriadol drwy, er enghraifft, ffugio neu gam-ddisgrifio bwriadol, neu drwy gydgynllwynio.
Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ein cyfrifoldebau am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

### Defnydd o'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau, wedi'i baratoi ar gyfer Corfforaeth y sefydliad yn unig fel corff yn unol ag Erthygl 18 Erthyglau Rheoli'r sefydliad ac at ddim diben arall. Wrth roi'r barnau hyn, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a ddaw i ddwylo unigolyn o'r fath pan roddwn ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

## Adroddiadau Gofynnol Eraill

### Barnau ar faterion eraill a nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae arian sydd wedi'i wario o grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid arall o ba bynnag ffynhonnell wedi'u gweinyddu gan y sefydliad at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac, os yn berthnasol, eu rheoli yn unol â phob deddfwriaeth berthnasol; ac

- mae'r incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

**PricewaterhouseCoopers LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol**
**Caerdydd**
**Rhagfyr 2023**

## Datganiad ar Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

| **INCWM** | **Nodyn** | **Coleg 2023 £'000** | **Coleg 2022 £'000** |
|---|---|---|---|
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 2 | 71,020 | 67,919 |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 3 | 3,357 | 3,629 |
| Grantiau a chontractau eraill | 4 | 2,125 | 2,594 |
| Incwm arall | 5 | 2,220 | 2,340 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 6 | 357 | 11 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **79,079** | **76,493** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau staff | 7 | 50,645 | 50,275 |
| Costau ail-strwythuro staff | 7 | 391 | 193 |
| Treuliau gweithredu eraill | 8 | 21,065 | 21,811 |
| Dibrisiant | 10 | 6,253 | 5,299 |
| Costau llog a chyllid eraill | 9 | 668 | 1,157 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **79,022** | **78,735** |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn eitemau eithriadol** | | 448 | (2,049) |
| Costau ail-strwythuro staff | | 391 | 193 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn unrhyw enillion a cholledion eraill** | | 57 | (2,242) |
| Enillion gwaredu ar asedau | | 29 | - |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | | 86 | (2,242) |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 22 | 21,733 | 53,364 |
| **Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **21,819** | **51,122** |
| **(y cwbl yn anghyfyngedig)** | | | |

**Datganiad ar newidiadau mewn arian wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023**

| | Cyfrif incwm a gwariant | Arian Wrth Gefn Cyfyngedig | Cronfa Ailbrisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Awst 2021** | (29,088) | 64 | 4,768 | (24,256) |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | (2,242) | - | - | (2,242) |
| Incwm cynhwysfawr arall | 53,364 | - | - | 53,364 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn | 16 | - | (16) | - |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **22,050** | **64** | **4,752** | **26,866** |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 86 | - | - | 86 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 21,733 | - | - | 21,733 |
| | 21,819 | **-** | **-** | **21,819** |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **43,869** | **64** | **4,752** | **48,685** |

## Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023

| | Nodyn | Coleg 2023 | Coleg 2022 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | **£'000** | **£'000** |
| Asedau sefydlog diriaethol | 10 | 86,962 | 86,427 |
| Buddsoddiadau | | - | - |
| Asedau gwaddol | 12 | 64 | 64 |
| Atebolrwydd Pensiwn Budd-dal Diffiniedig | 22 | 5,588 | - |
| | | **92,614** | **86,491** |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Stociau | 13 | 2 | 2 |
| Masnach a derbyniadwyon eraill | 14 | 2,913 | 2,813 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 19 | 33,605 | 32,397 |
| | | **36,520** | **35,212** |
| Llai credydwyr - symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn | 15 | (22,786) | (22,734) |
| **Asedau Cyfredol Net** | | **13,734** | **12,478** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **106,348** | **98,969** |
| Credydwyr - symiau yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | 16 | (55,488) | (55,700) |
| **Asedau net cyn darpariaethau** | | **50,860** | **43,269** |
| **Darpariaethau** | | | |
| Rhwymedigaethau pensiynau buddion wedi'u diffinio | 22 | - | (14,012) |
| Darpariaethau eraill | 18 | (2,175) | (2,391) |
| | | **3,413** | **(16,403)** |
| **Asedau Net** | | **48,685** | **26,866** |
| **Arian wrth gefn cyfyngedig** | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cronfa waddol | | 64 | 64 |
| **Arian Wrth Gefn Anghyfyngedig** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant | | 43,869 | 22,050 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 4,752 | 4,752 |
| Cyfanswm arian wrth gefn anghyfyngedig | | 48,621 | 26,802 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **48,685** | **26,866** |

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 42 i 66 gan y Gorfforaeth ar 12 Rhagfyr 2023 ac fe lofnodwyd ar ei rhan gan

| ................................... | ...................................... | ............................................ |
|---|---|---|
| **Mr M. Langshaw MBE** | **Mr G O Lacey** | **Mrs Lynda Astell** |

**Cadeirydd** **Pennaeth/Prif Weithredwr** **Is-bennaeth**

## Datganiad ar lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| ***Llif arian parod o weithgareddau gweithredol*** | | |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn cyn unrhyw enillion a cholledion eraill | 86 | (2,242) |
| ***Addasiad ar gyfer eitemau heb fod yn ariannol*** | | |
| Dibrisiant | 6,253 | 5,299 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | (98) | (835) |
| Cynnydd mewn credydwyr yn ddyledus cyn pen blwyddyn | 52 | 8,209 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | (217) | (451) |
| Costau pensiwn ar ôl tynnu cyfraniadau yn daladwy | 1,613 | 5,624 |
| Datganiad grant cyfalaf gohiriedig | (2,994) | (2,414) |
| ***Addasiad ar gyfer buddsoddi neu weithgareddau ariannu*** | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | (357) | (11) |
| Llog yn daladwy | 668 | 1,157 |
| Incwm buddsoddiad a dderbyniwyd | - | 2 |
| **Llif arian net a gynhyrchiwyd o weithgareddau gweithredol** | **5,006** | **14,338** |
| ***Llif arian o weithgareddau buddsoddi*** | | |
| Elw o werthu asedau sefydlog | - | 13 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 357 | 11 |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | (6,788) | (8,267) |
| Grant gohiriedig a dderbyniwyd | 3,084 | 2,769 |
| **Llif arian net a ddefnyddir yng ngweithgareddau buddsoddi** | **(3,347)** | **(5,474)** |
| ***Llif arian o weithgareddau ariannu*** | | |
| Llog a dalwyd | (148) | (124) |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd drwy fenthyciadau | (303) | (390) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | **(451)** | **(514)** |
| **Cynnydd mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn y flwyddyn** | **1,208** | **8,350** |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | **32,397** | **24,047** |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **33,605** | **32,397** |

## 1. DATGANIAD AR BOLISÏAU CYFRIFYDDU A THECHNEGAU AMCANGYFRIF

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

**Sail paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r *Datganiad o Arfer Argymelledig*: *Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019* (2019 FE HE SORP), *Canllaw Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru* ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 - "*Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*" (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid budd y cyhoedd ac felly wedi cymhwyso gofynion budd y cyhoedd perthnasol yn FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu allweddol penodol. Mae hefyd yn gofyn i reolwyr ddefnyddio eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Coleg.

**Sail cyfrifyddu**

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel yr addaswyd wrth ailbrisio asedau sefydlog penodol.

**Sail cyfuno**

Nodir is-gwmnïau Coleg yn nodyn 11, ac mae pob un yn anweithredol ar hyn o bryd. Nid yw gweithgareddau'r undeb myfyrwyr wedi'u cyfuno oherwydd nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

**Cwmni sy'n Parhau**

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adroddiad Aelodau. Mae sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, gwybodaeth diddymu a benthyciadau wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg £3.2m o fenthyciadau (2022: £3.6m) yn daladwy gyda bancwyr ar delerau a drafodwyd ar wahanol ddyddiadau. Mae rhagolygon a rhagamcaniadau ariannol y Coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol a chyfamodau am y dyfodol rhagweladwy.

Yn unol â hynny, mae gan y Coleg ddisgwyliad rhesymol bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy, ac am y rheswm hwn, bydd yn parhau i fod yn gwmni sy'n parhau wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

**Cydnabyddiaeth o incwm**

Mae grantiau refeniw gan y llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gorff ariannu a grantiau eraill sy'n cael eu cyfrif dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau rheolaidd gan gorff ariannu eu mesur yn unol ag amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod maent yn dderbyniadwy ac yn dibynnu ar y llif incwm penodol sydd ynghlwm â nhw. Fel rheol, caiff yr incwm grant terfynol ei bennu pan ddaw proses gysoni ar ddiwedd y flwyddyn i ben gyda'r corff ariannu a chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllid.

Mae'r grant rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn cynrychioli'r dyraniadau cyllid sydd wedi'u priodoli i'r flwyddyn ariannol bresennol a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol eu cydnabod fel incwm pan mae'r Coleg yn gymwys am yr incwm ac mae'r amodau yn ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r amodau cysylltiedig â pherfformiad gael eu bodloni ei gydnabod fel incwm wedi'i ohirio o fewn credydwyr ar y fantolen a'i ddatgan yn incwm fel mae'r amodau'n cael eu bodloni.

*Cyllid grant cyfalaf*

Caiff grantiau cyfalaf y Llywodraeth eu cyfalafu, eu cadw fel incwm wedi'i ohirio a'u cydnabod fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau eraill o ffynonellau anllywodraethol eu cydnabod fel incwm pan mae'r Coleg yn gymwys am y cyllid yn amodol ar unrhyw amodau yn ymwneud â pherfformiad yn cael eu bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r amodau cysylltiedig â pherfformiad gael eu bodloni ei gydnabod fel incwm wedi'i ohirio o fewn credydwyr ar y Fantolen a'i ddatgan yn incwm fel mae'r amodau'n cael eu bodloni.

*Incwm ffi*

Nodir incwm o ffioedd dysgu yn gros o unrhyw wariant nad yw'n ostyngiad a chaiff ei gydnabod yn y cyfnod y caiff ei dderbyn.

*Incwm buddsoddiad*

Caiff pob incwm o flaendaliadau tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod yr enillir ef ar sail dderbyniadwy.

**Trefniadau asiantaeth**

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu cronfeydd cymorth dewisol penodol. Mae taliadau cysylltiedig a geir gan y cyrff cyllid a threuliau dilynol i fyfyrwyr wedi'u heithrio o incwm a gwariant y Coleg lle mae'r Coleg yn cael ei amlygu i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

**Cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth**

Caiff buddion ôl-gyflogaeth i gyflogeion y Coleg eu darparu'n bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynlluniau buddion wedi'u diffinio yw'r rhain, sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu. Caiff cyfrifiadau i'r CPA eu cyfrifo er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion gyda'r Coleg mewn modd y mae'r cost pensiwn yn ganran lefel sylweddol o'r gyflogres bensiynadwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu pennu gan actiwarïaid cymwys ar sail prisiadau gan ddefnyddio dull budd arfaethedig. Mae’r CPA yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'r Coleg yn gallu adnabod ei gyfran o'r asedau sylfaenol a rhwymedigaeth y cynllun yn gyson a rhesymol. Felly, caiff y CPA ei drin fel cynllun cyfraniad diffiniedig a'r cyfraniadau eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnod y caiff y gwasanaethau eu darparu gan gyflogeion.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun wedi'i ariannu. Mesurir asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credydau unedau a'u disgowntio ar y gyfradd adenillion gyfredol ar fond corfforaethol ansawdd uchel sydd â thymor ac arian cyfred cyfwerth â'r rhwymedigaethau. Caiff prisiadau'r actiwari eu caffael o leiaf bob tair blynedd a'u diweddaru ym mhob mantolen. Y symiau a nodir fel gwarged gweithredu yw costau cyfredol y gwasanaeth a chostau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, taliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff fel costau a achoswyd. Caiff llog net ar y rhwymedigaeth/ased buddion wedi'u diffinio net hefyd ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cwmpasu cost y llog ar y rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'u cyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ariannol â'r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar

asedau'r cynllun a'r adenillion ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod yn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill. Lle mae gwerth asedau pensiwn yn fwy na'r rhwymedigaethau pensiwn nid yw gwarged pensiwn ond yn cael ei gydnabod pan mae yna sicrwydd ynghylch gallu'r Coleg i adfer y warged drwy gyfraniadau gostyngedig yn y dyfodol.

**Buddion cyflogaeth tymor byr**

Mae buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol (tâl gwyliau) wedi'u cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn darparu gwasanaeth i'r Coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Coleg ei dalu o ganlyniad i'r hawl heb ei defnyddio.

**Pensiynau Uwch**

Caiff y gost wirioneddol o unrhyw bensiwn uwch cyfredol i gyn-aelod o staff ei dalu gan y Coleg bob blwyddyn. Caiff amcan o gost ddisgwyliedig y dyfodol o unrhyw godiad i bensiwn cyfredol cyn-aelod o staff ei godi'n llawn i SOCI y Coleg yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl i'r darpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiwn uwch a ddarperir gan gyrff ariannu.

**Asedau sefydlog diriaethol**

Nodir asedau sefydlog diriaethol fel cost ar ôl tynnu'r dibrisiant cronedig a cholledion diffyg cronedig. Mae eitemau penodol o asedau sefydlog wedi'u hail-brisio i werth teg ar neu cyn dyddiad trosglwyddo i'r FE HE SORP 2015, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ail-brisio ar ddyddiad yr ail-brisio hwnnw.

*Tir ac adeiladau*

Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

- Adeiladau a gaffaelwyd ar ôl mis Awst 2002 – 25 mlynedd
- Adeiladau a gaffaelwyd ar ôl mis Awst 2002 – 50 mlynedd
- Seilwaith Mecanyddol a Thrydanol – 25 mlynedd
- Gwaith ailwampio - 10 mlynedd

Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio (oni bai ei fod ar brydles hir).

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Coleg o rhwng 25 a 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi ar gyfer dibrisio addasiadau sylweddol i adeiladau dros eu hoes economaidd ddefnyddiol o rhwng 25 a 50 mlynedd.

Lle caiff tir ac adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig o fewn credydwyr a'u datgan yn y cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail systematig yn gyson â'r polisi dibrisio. Caiff yr incwm gohiriedig ei ddyrannu rhwng credydwyr sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn a'r rheiny sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Cynhelir adolygiad ar gyfer diffyg ar ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd cario swm unrhyw ased sefydlog yn adferadwy.

Wrth fabwysiadu FRS 102, dilynodd y Coleg y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth tir ac adeiladau ar y llyfrau, a gafodd eu hailbrisio yn 1993 wrth gorffori, fel cost dybiedig ond i beidio â mabwysiadu polisi o ailbrisiadau'r eiddo hwn yn y dyfodol.

*Asedau'n cael eu hadeiladu*

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu cyfrif ar gost yn seiliedig ar werth tystysgrifau'r pensaer a chostau uniongyrchol eraill, a achoswyd hyd at 31 Gorffennaf. Ni chânt eu dibrisio nes y dechreuir eu defnyddio.

*Gwariant dilynol ar asedau sefydlog cyfredol*

Lle achosir gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol ar ôl y pryniant cychwynnol, caiff ei godi i'r SOCI yn y flwyddyn ariannol y'i hachoswyd, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y Coleg yn y dyfodol, ac os hynny, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel sy'n berthnasol.

*Offer*

Cydnabyddir offer sy'n costio llai na £5,000 fesul eitem unigol fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y caiff ei gaffael. Caiff pob offer arall ei gyfalafu ar gost.
Dibrisir offer wedi'i gyfalafu ar sail llinell syth dros ei oes economaidd ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- offer technegol 5 mlynedd
- cerbydau modur 5 mlynedd
- offer cyfrifiadurol 4 blynedd
- dodrefn, gosodiadau a ffitiadau 10 mlynedd

**Costau benthyca**

Caiff costau benthyca eu cydnabod fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y cânt eu hachosi.

**Asedau ar brydles**

Caiff costau mewn perthynas â gweithredu prydlesi eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff unrhyw bremiymau neu gymhelliannau sy'n gysylltiedig â phrydlesi sy'n cael eu llofnodi ar ôl 1 Awst 2014 eu lledaenu dros leiafswm tymor y brydles.
Caiff trefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo i'r Coleg yn sylweddol, yr holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased eu trin fel prydlesi cyllid.
Mae asedau a gedwir dan brydlesi cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau fel gwerth teg yr ased ar brydles (neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm y taliadau prydles) ar ddechrau'r brydles. Mae'r atebolrwydd cyfatebol i'r prydleswr wedi'i gynnwys yn y fantolen fel rhwymedigaeth prydles cyllid. Mae asedau a gedwir dan

brydlesi cyllid yn cael eu cynnwys yn asedau sefydlog diriaethol a'u dibrisio a'u hasesu am golledion diffyg yn yr un modd ag asedion y perchnogir.

Caiff isafswm taliadau prydles eu rhannu rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae'r taliadau cyllid yn cael eu dyrannu dros gyfnod y brydles, yn unol â'r elfen cyfalaf sy'n weddill.

**Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau**

Cyfrifir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar gost ar ôl tynnu'r diffyg yn y datganiadau ariannol unigol.

**Rhestr eiddo**

Nodir y rhestrau eiddo ar eu cost isaf (gan ddefnyddio'r dull y cyntaf i mewn y cyntaf allan) a'r gwerth realeiddiadwy net, sef y pris gwerthu ar ôl tynnu costau cwblhau a gwerthu. Pryd bynnag sy'n

angenrheidiol, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc ddarfodedig, stoc sy'n symud yn araf neu eitemau diffygiol.

**Arian a chyfwerth ag arian**

Mae arian yn cynnwys arian i law, blaendaliadau sy'n daladwy ar alw a gorddrafft. Mae blaendaliadau yn daladwy ar alw os ydynt ar gael cyn pen 24 awr heb gosb.

Mae cyfwerth ag arian yn fuddsoddiadau tymor byr, hynod rydd sy'n rhwydd eu trosi'n symiau o arian parod gyda risg isel o newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn cymhwyso fel un sydd gyfwerth ag arian pan mae'n hŷn na 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael.

**Rhwymedigaethau ac ecwiti ariannol**

Mae rhwymedigaethau ac ecwiti ariannol yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mae pob benthyciad, buddsoddiad a blaendal tymor byr a gedwir gan y Coleg yn cael eu dosbarthu fel offer ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. I ddechrau, caiff yr offer hyn eu cofnodi ar y pris trafod ar ôl tynnu unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i offer ariannol sylfaenol gael eu mesur eto ar gost amorteiddio.

**Treth**

Credir y bydd y Coleg yn llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni diffiniad cwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Yn unol â hynny, mae'n bosibl bod y Coleg wedi'i eithrio rhag gorfod talu treth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn categorïau yr ymdrinnir â nhw yn adrannau 478-488 Deddf y Dreth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff incwm neu enillion o'r fath eu cymhwyso'n arbennig at ddibenion elusennol.

Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol mewn perthynas â Threth ar Werth, felly gall adennill oddeutu 6.2% yn unig (hawl TAW diwethaf) o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynnau. Mae TAW ar fewnbynnau na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'u hychwanegu at y gost o asedau sefydlog diriaethol fel sy'n briodol, lle mae'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol yn eu natur.

**Darpariaethau a rhwymedigaethau amodol**

Cydnabyddir darpariaethau pan

- mae gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol,
- mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a
- gellir amcangyfrif yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y swm a ddisgwylir yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ei gydnabod ar werth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgowntio cyn-treth. Caiff dad-ddirwyn y disgownt ei gydnabod fel cost cyllid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn ariannol mae'n codi.

Bydd rhwymedigaeth amodol sy'n codi o ddigwyddiad blaenorol sy'n rhoi rhwymedigaeth posibl i'r Coleg y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau dim ond drwy ddigwyddiad neu ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyr y Coleg. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi dan amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol neu na ellir mesur yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

Nid yw rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y fantolen ond cânt eu datgan yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

**Beirniadaethau o ran cymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif**

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi sefydlu'r farn ganlynol:

- Pennu a oes unrhyw ddangosyddion o ddiffyg yn asedau diriaethol y grŵp. Mae ffactorau a gymerir i ystyriaeth wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys dichonoldeb economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol lle mae'n gydran uned cynhyrchu arian mwy, dichonoldeb a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.

*Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif*

- *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol gan gymryd i ystyriaeth gwerth gweddilliol, pryd bynnag sy'n briodol. Caiff oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol eu hasesu bob blwyddyn a gallant amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ail-asesu oes asedau, caiff ffactorau megis arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw eu cymryd i ystyriaeth. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis amodau'r farchnad yn y dyfodol, oes sydd gan yr ased ar ôl a gwerthoedd gwaredu arfaethedig.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth cyfredol rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu pennu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn pennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio. Bydd unrhyw newid yn y tybiaethau hyn, sy'n cael eu datgelu yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth bensiwn. Yn ogystal, mae dull treigl sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf a wnaed ar 31 Mawrth 2022 wedi'i ddefnyddio gan yr actwari i brisio'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Gorffennaf 2023. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigyrau sy'n deillio o'r dull treigl a phrisiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth bensiwn.

## 2. GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau Rheolaidd** | | |
| Grant Rheolaidd LlC | 55,510 | 51,468 |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 2,395 | 2,243 |
| Datganiad Grantiau Cyfalaf Gohiriedig LlC - adeiladau | 129 | 129 |
| Datganiad Grantiau Cyfalaf Gohiriedig LlC - cyfarpar | 2,191 | 1,578 |

| | | |
|---|---|---|
| Grantiau penodol eraill | 10,795 | 12,501 |
| **Cyfanswm** | **71,020** | **67,919** |

**2. Grantiau Llywodraeth Cymru - (Parhad)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, cafodd y Coleg £1,222k (2021/22: £1,002m) gan Lywodraeth Cymru wedi'i glustnodi fel Cronfeydd Cefnogi Dysgwyr. Cafodd y cronfeydd hyn eu gweinyddu yn unol â'r amodau a thelerau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi'u cofnodi yng nghyfrif incwm a gwariant y Coleg. Dangosir manylion y grant hwn yn Nodyn 24.

## 3. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd - Addysg Bellach | 567 | 291 |
| Ffïoedd - Addysg Uwch | 2,652 | 3,191 |
| Cyfanswm ffïoedd dysgu | 3,219 | 3,482 |
| Contractau AALl | 138 | 147 |
| **Cyfanswm** | **3,357** | **3,629** |

## 4. GRANTIAU A CHONTRACTAU ERAILL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Ewropeaidd | 2,125 | 2,594 |
| **Cyfanswm** | **2,125** | **2,594** |

## 5. INCWM ARALL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Arlwyaeth | 33 | 21 |
| Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm | 327 | 277 |
| Datganiad grantiau cyfalaf gohiriedig eraill - heb fod yn LlC | 674 | 707 |
| Gweithgareddau ffermio | 1 | 4 |
| Incwm amrywiol | 1,185 | 1,331 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **2,220** | **2,340** |

## 6. INCWM BUDDSODDIAD

| | **Coleg 2023 £'000** | **Coleg 2022 £'000** |
|---|---|---|
| Llog banc yn dderbyniadwy | 357 | 11 |
| **Cyfanswm** | **357** | **11** |

## 7. COSTAU STAFF

**Nifer o staff**

Y nifer cyfartalog o unigolion (gan gynnwys staff rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y coleg yn ystod y flwyddyn, a ddisgrifiwyd yn gyfrifiad, oedd:

| | **Coleg 2023 Nifer** | **Coleg 2022 Nifer** |
|---|---|---|
| Staff addysgu | 607 | 536 |
| Staff nad ydynt yn addysgu | 650 | 703 |
| **Cyfanswm** | **1,257** | **1,239** |

| **Costau staff ar gyfer yr unigolion uchod** | **Coleg 2023 £’000** | **Coleg 2022 £’000** |
|---|---|---|
| Cyflogau a thaliadau | 37,797 | 34,700 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,736 | 3,337 |
| Costau pensiwn eraill (gan gynnwys pensiynau uwch, addasiad FRS 102) | 9,309 | 12,362 |
| Symudiad yn nhâl gwyliau | (197) | (124) |
| | 50,645 | 50,275 |
| Costau diswyddo staff eithriadol | 391 | 193 |
| | **51,036** | **50,468** |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

**Costau cyflogaeth yn ôl math o gyflogai**

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Adrannau addysgu | 28,350 | 26,116 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu | 6,870 | 6,456 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 13,279 | 11,610 |
| Safleoedd | 624 | 554 |
| Hyfforddi a datblygu | 45 | 64 |
| Costau diswyddo staff eithriadol | 391 | 193 |
| Symudiad darpariaeth pensiwn uwch | (102) | (177) |
| Treth prentisiaeth | 163 | 152 |
| FRS102 tâl uwchben cyfraniadau | 1,613 | 5,624 |
| Symudiad croniad tâl gwyliau | (197) | (124) |
| **Cyfanswm** | **51,036** | **50,468** |

**Staff rheoli allweddol**

Staff rheoli allweddol yw'r unigolion hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg a chânt eu cynrychioli gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg sy'n cynnwys y Pennaeth, yr Is-benaethiaid a'r Cyfarwyddwyr.

**Enillion staff rheoli allweddol, y Swyddog Atebol a staff uwch eraill.**

Y nifer o staff rheoli allweddol a staff eraill a gafodd enillion blynyddol, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion mewn da oedd:

| | Coleg 2023 Nifer | Coleg 2022 Nifer |
|---|---|---|
| Y nifer o staff rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu oedd: | 14.47 | 13.00 |
| **Cyfanswm** | **14.47** | **13.00** |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

| Staff rheoli allweddol | Coleg 2023 Nifer | Coleg 2022 Nifer |
|---|---|---|
| £60,001 i £65,000 y flwyddyn | - | 4.00 |
| £65,001 i £70,000 y flwyddyn | 5.36 | 2.00 |
| £70,001 i £75,000 y flwyddyn | 1.42 | 1.00 |
| £75,001 i £80,000 y flwyddyn | - | 3.00 |
| £80,001 - £85,000 y flwyddyn | 4.69 | - |
| £115,001 i £120,000 y flwyddyn | 1.00 | 2.00 |
| £120,001 i £125,000 y flwyddyn | 1.00 | - |
| £185,001 - £190,000 y flwyddyn | 1.00 | 1.00 |
| **Cyfanswm** | **14.47** | **13.00** |

**Gwneir iawndal staff rheoli allweddol fel a ganlyn:**

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,249 | 1,060 |
| Lwfans Car | 22 | 22 |
| Cynllun Gofal Iechyd | 8 | 7 |
| Cyfraniadau pensiwn | 260 | 220 |
| **Cyfanswm yr Enillion** | **1,539** | **1,309** |

Yn 22/23 roedd yna 3 aelod o staff oedd yn ennill dros 60k nad oeddent yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Dau ddarlithydd ac un Pennaeth Gwasanaeth.

| | Coleg 2023 Nifer | Coleg 2022 Nifer |
|---|---|---|
| £60,001 i £65,000 y flwyddyn | 3 | - |

Mae'r iawndal uchod yn cynnwys symiau yn daladwy i'r Pennaeth, sef y swyddog atebol a'r aelod o staff sy'n cael y cyflog uchaf. Mae eu tâl a'u cydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 186 | 173 |
| Cyfraniadau pensiwn | 34 | 31 |
| **Cyfanswm yr Enillion** | **220** | **204** |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

Iawndal am golled swydd a delir i gyn-aelodau o staff rheoli allweddol.

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Iawndal am golled swydd a delir i gyn-aelodau o staff rheoli allweddol | 40 | - |
| **Cyfanswm** | **40** | **-** |

Ni chafodd aelodau'r Gorfforaeth, heblaw am y Swyddog Atebol a'r aelodau o staff, unrhyw daliad gan y sefydliad ac eithrio ad-dalu unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth a achoswyd wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**Perthynas tâl a chydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth/Prif Weithredwr a fynegir fel lluosrif**

| | Coleg 2023 | Coleg 2022 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Pennaeth fel lluosrif o ganolrif pob staff | 4.88 | 4.90 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth fel lluosrif o ganolrif pob staff. | 6.12 | 6.13 |

Mae'r ffigyrau 2023 yn seiliedig ar yr adroddiad Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau ar gyfer mis Mawrth 2023 ac nid ydynt yn cynnwys staff asiantaeth. Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg gontractau allanol ar gyfer gwasanaethau glanhau ac arlwyaeth y Coleg, felly nid yw'r costau staffio hyn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ychwaith.

## 8. TREULIAU GWEITHREDU ERAILL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Costau adran addysgu | 2,243 | 3,722 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 143 | 135 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 5,811 | 4,984 |
| Addysg Gyffredinol | 2,355 | 2,304 |
| Costau eiddo a chynnal a chadw | 6,215 | 6,794 |
| Darpariaeth masnachfraint | 1,200 | 1,005 |
| Taliad i Bartneriaid - Cronfa Ewropeaidd | 715 | 1,195 |
| Gweithrediadau Arlwyo | 435 | 358 |
| Ystadau Brynbuga | 18 | 16 |
| Trafnidiaeth | 988 | 1,005 |
| | 20,123 | 21,518 |
| Tâl Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr (Mae pob ffi archwilio yn cynnwys TAW) | | |
| Datganiad Ariannol | 46 | 43 |
| Gwasanaethau Eraill | 14 | 13 |
| Archwiliad Mewnol | 57 | 31 |
| Hurio asedau o dan brydlesi gweithredu - asedau heb fod yn eiddo | 825 | 206 |
| | 21,065 | 21,811 |

## 9. LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill | 148 | 124 |
| Costau cyllid pensiwn (nodyn 22) | 520 | 1,033 |
| | **668** | **1,157** |

## 10. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Cafodd tir ac adeiladau eu prisio yn 1993 gan Brisiwr Dosbarth Casnewydd ar sail Gwerth Marchnad Agored ar gyfer y Defnydd Cyfredol, neu yn achos adeiladau arbenigol, ar sail y Gost Amnewid Ddibrisiedig, ar gyfer corffori yn y fantolen. Roedd y prisiad, fel yr oedd ar 1 Ebrill 1993, yn £29,885,000 yr oedd £23,212,000 ohono yn gysylltiedig ag adeiladau a £6,673,000 yn gysylltiedig â thir.

Gan y cafodd y tir a'r adeiladau a etifeddwyd eu trosglwyddo o'r Awdurdod Addysg Lleol i'r Coleg dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 am £0, pe na byddent wedi'u prisio yna byddent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gost hanesyddol o £0. Petai'r asedau hyn yn cael eu gwerthu, byddai'n rhaid i'r Coleg naill ai rhoi'r elw o'r gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd tir ac adeiladau a gafodd eu rhoi'n rhodd eu prisio ar 21 Gorffennaf 2012 (Parth Dysgu Blaenau Gwent) a 27 Awst 2020 (Parth Dysgu Torfaen) gan Cooke & Arkwright ac maent wedi'u dibrisio yn ystod y flwyddyn yn unol â pholisi dibrisio'r Coleg.

Mae asedau sydd â gwerth net ar y llyfrau o £11,693k (2021/22: £9,008k) wedi'u hariannu â grantiau Llywodraeth Cymru, ac mae asedau sydd â gwerth net ar y llyfrau o £302k (2021/22: £341k) wedi'u hariannu gan grantiau eraill. Petai'r Coleg yn cael gwared ar yr asedau hyn, byddai'r elw yn dychwelyd at y sefydliad perthnasol.

| | **Tir** | **Adeiladau** | **Gosodiadau a Ffitiadau** | **Asedau wrth adeiladu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 6,857 | 88,873 | 38,039 | 9,692 | **143,461** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 6,788 | **6,788** |
| Ailddosbarthiadau | 336 | 20 | 10,881 | (11,237) | **-** |
| *Ar 31 Gorffennaf 2023* | **7,193** | **88,893** | **48,920** | **5,243** | **150,249** |
| **Dibrisiad Cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 378 | 37,533 | 19,123 | - | **57,034** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 12 | 1,361 | 4,880 | - | **6,253** |
| *Ar 31 Gorffennaf 2023* | **390** | **38,894** | **24,003** | **-** | **63,287** |
| ***Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31*** | **6,803** | **49,999** | **24,917** | **5,243** | **86,962** |
| ***Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31*** | **6,479** | **51,340** | **18,916** | **9,692** | **86,427** |

## 11. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

Mae Coleg Gwent Enterprises Ltd a Coleg Gwent Catering Ltd yn gwmnïau segur. Y cyfeiriad cofrestredig ar gyfer pob is-gwmni yw: - Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1XJ.

## 12. ASEDAU GWADDOL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau Arian Parod | 64 | 64 |
| **Cyfanswm** | **64** | **64** |

## 13. STOCIAU

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc y ffreutur a'r bar | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** |

## 14. MASNACH A DERBYNIADWYON ERAILL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn** | | |
| Derbyniadwyon masnach | 460 | 353 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 2,453 | 2,460 |
| **Cyfanswm** | **2,913** | **2,813** |

## 15. CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY CYN PEN BLWYDDYN

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn** | | |
| Benthyciadau banc (cyfeiriwch at nodyn 17) | 302 | 389 |
| Symiau taladwy masnach | 531 | 235 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 7,533 | 8,328 |
| Grantiau llywodraeth a gafwyd ymlaen llaw - Cyfalaf Wedi'i Orhirio | 4,061 | 2,685 |
| Grantiau ymlaen llaw | 10,359 | 11,097 |
| **Cyfanswm** | **22,786** | **22,734** |

## 16. CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | Coleg | Coleg |
|---|---|---|

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc | 2,515 | 2,818 |
| Incwm gohiriedig - grantiau llywodraeth | 52,973 | 52,882 |
| **Cyfanswm** | **55,488** | **55,700** |

## 17. AEDDFEDRWYDD DYLED – BENTHYCIADAU BANC A GORDDRAFFTIAU

Mae benthyciadau banc yn ad-daladwy fel a ganlyn:

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau yn daladwy cyn pen blwyddyn | 303 | 389 |
| Rhwng un a dwy flynedd | 321 | 302 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 1,085 | 1,044 |
| Mewn pum mlynedd neu fwy | 1,109 | 1,472 |
| **Cyfanswm** | **2,818** | **3,207** |

Mae gan y Coleg dri chyfleuster wedi'u tynnu i lawr fel a ganlyn:

| Bank | Cyfanswm y Benthyciad £k | Diogelwch | Cyfradd Llog | Amserlen daliadau |
|---|---|---|---|---|
| National Westminster | 1,125 | Llyfrgell Casnewydd | Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifir yn ddyddiol | 96 rhandaliad chwarterol yn dod i ben mis Awst 2028 |
| National Westminster | 1,800 | Bloc Celf Casnewydd | Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifir yn ddyddiol | 96 rhandaliad chwarterol yn dod i ben mis Awst 2028 |
| Lloyds TSB | 2,900 | Ansicr | 5.584% | 92 rhandaliad chwarterol yn dod i ben mis Ionawr 2034 |

## 18. DARPARIAETHAU ERAILL

| | Darpariaeth ar gyfer Cau Safle Pontypŵl | Eraill | Symudiad Darpariaeth Pensiwn Uwch | Darpariaeth tâl gwyliau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Awst 2022 | - | - | 1,528 | 864 | 2,392 |
| Rhyddhawyd / defnyddiwyd | - | - | (151) | (197) | (348) |
| Taliad i gyfrif Incwm a Gwariant a dalwyd yn ystod y cyfnod | 184 | 50 | (103) | - | 131 |
| **Cyfanswm** | 184 | 50 | 1,274 | 667 | 2,175 |

Mae Darpariaeth Cau Pontypŵl yn berthnasol i Gampws Pontypŵl lle gwnaed y penderfyniad i gau ym mis Mai 2023. Mae'r ddarpariaeth wedi'i wneud ar gyfer gweddill y costau a godir yn ystod blwyddyn ariannol 24/25.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn ymwneud â chost staff sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth y Coleg a'r ymrwymiadau ar gyfer costau ad-drefnu na all y Coleg ei dynnu'n rhesymol ohono ar ddyddiad y fantolen.

Y prif dybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw;

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| Chwyddiant Pris | 2.8% | 2.9% |
| Cyfradd Gostyngiad | 5% | 3.3% |

Mae'r ddarpariaeth tâl gwyliau yn ymwneud â buddion cyflogeion tymor byr a roddir i'r holl gyflogeion yn y flwyddyn ariannol ond sy'n dal i fod yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r buddion hyn yn ymwneud ag absenoldeb blynyddol sy'n weddill ar 31 Gorffennaf 2023.

## 19. ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | Ar 1 Awst 2022 | Llifau arian | Ar 31 Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 32,397 | 1,208 | 33,605 |
| **Cyfanswm** | **32,397** | **1,208** | **33,605** |

## 20. YMRWYMIADAU CYFALAF AC ERAILL

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau wedi'u contractio ar 31 Gorffennaf | 3,195 | 3,107 |
| **Cyfanswm** | **3,195** | **3,107** |

## 21. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y Coleg isafswm taliadau prydles dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Arall (heb fod yn dir nac adeiladau)** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 253 | 206 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 572 | 24 |
| **Cyfanswm** | **825** | **230** |

## 22. RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN WEDI'U DIFFINIO

Mae cyflogeion y Coleg yn perthyn i ddau brif cynllun pensiwn: Y Cynllun Pensiwn Athrawon yng Nghymru a Lloegr (CPA) ar gyfer staff academaidd a chysylltiedig; a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Torfaen. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio.

Caiff y costau pensiwn eu hasesu yn unol â chyngor gan actiwarïaid cymwys, annibynnol. Prisiad actiwaraidd ffurfiol diweddaraf y CPA oedd mis Mawrth 2016 a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2022.

**Cyfanswm Cost Pensiwn ar gyfer y flwyddyn**

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Athrawon | 4,938 | 4,445 |
| Cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | |
| Cyfraniadau a dalwyd | 2,858 | 2,526 |
| Symudiad mewn croniadau/addasiadau LS | 2 | (2) |
| Tâl "FRS 102" | 1,613 | 5,624 |
| Tâl i Ddatganiad o Incwm Cynhwysfawr | 4,473 | 8,148 |
| Tâl Pensiwn Uwch i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | (102) | (177) |
| Cyfanswm Tâl Pensiwn | **9,309** | **12,416** |

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

**Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA)**

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) yn gynllun buddion wedi'u diffinio, cyfrannol, statudol, a reolir gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysg eraill, gan gynnwys Colegau. Mae aelodaeth yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r CPA

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau yn cyfrannu ar sail 'talu wrth fynd' - mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rheiny a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys dan drefniadau a reolir gan y Ddeddf uchod. Telir buddion ymddeol a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd.

Dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r CPA yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi cymryd mantais o'r eithriad yn FRS 102 ac wedi nodi ei gyfraniadau i'r cynllun fel petai'n gynllun buddion wedi'u diffinio.

Caiff y CPA ei brisio yn unol â'r rheoliadau dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn athrawon gyda chyfradd adennill go iawn gan gymryd yn ganiataol bod cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu cyfradd adennill go iawn

Cynhaliwyd adolygiad actwaraidd diweddaraf y CPA fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Cyhoeddwyd adroddiad y prisiad gan yr Adran Addysg (yr Adran) ym mis Ebrill 2019. Mae'r

prisiad yn adrodd cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ac amcan gost buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth ar y dyddiad dan sylw o £218 biliwn, ac asedau tybiannol (bras amcan o gyfraniadau yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol ar ddyddiad y prisiad) o £198 biliwn, gan roi diffyg gwasanaeth blaenorol tybiannol o £22 biliwn.

O ganlyniad i'r prisiad, gosodwyd cyfraddau newydd i gyfraniadau cyflogwr ar 23.68% o dâl pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (mewn cymhariaeth â 16.48% yn 2018/19). Mae'r Adran Addysg wedi cytuno i dalu grant cyfraniad cyflogwr at bensiwn athrawon i dalu'r costau ychwanegol yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

Gallwch ddod o hyd i gopi llawn o adroddiad y prisiad a'r ddogfennaeth ategol ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon

Y costau pensiwn a dalwyd i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn ystod y flwyddyn oedd £4,938k (2022 £4,445k)

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion wedi'u diffinio, gyda'r asedau yn cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân dan weinyddiaeth Awdurdod Unedol Torfaen. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 oedd £3,803k, ac o hynny roedd cyfraniad gan gyflogwyr yn cyfrif £2,860k a chyfraniadau gan gyflogeion yn cyfrif £943k. Y cyfraddau cyfrannu cytunedig ar gyfer blynyddoedd i ddod yw 19.8% i gyflogwyr ac maent yn amrywio rhwng 5.5% a 12.5% i gyflogeion, yn dibynnu ar gyflog.

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

**Prif Dybiaethau Actiwaraidd**
Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022, wedi'i ddiweddaru i 31 Gorffennaf 2023 gan actiwari annibynnol, cymwys.

| | **Ar 31 Gorffennaf 2023** % | **Ar 31 Gorffennaf 2022** % |
|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.50 | 3.05 |
| Cyfradd gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun | 5.05 | 3.50 |
| Tybiaeth chwyddiant | 3.00 | 2.75 |
| Cyfnewid Pensiynau yn gyfandaliadau | 65.0 | 50.0 |

Mae'r tybiaethau marwolaeth cyfredol yn cynnwys digon o le am welliannau yng nghyfradd marwolaeth y dyfodol. Y disgwyliad oed tybiedig i rywun sy'n ymddeol yn 65 oed ydy:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| ***Ymddeol heddiw*** | **%** | **%** |
| Gwrywod | 20.6 | 20.5 |
| Benywod | 23.4 | 23.2 |
| | | |
| ***Ymddeol mewn 20 mlynedd*** | **2023** | **2022** |
| | **%** | **%** |
| Gwrywod | 21.3 | 21.8 |
| Benywod | 25.0 | 25.1 |

Mae'r swm sydd wedi'i gynnwys ar y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio fel a ganlyn:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg o asedau'r cynllun | 93,785 | 89,073 |
| Gwerth cyfredol atebolrwydd y cynllun | (88,197) | (103,085) |
| **Gwarged Pensiwn Net / (Rhwymedigaeth)** | **5,588** | **(14,012)** |

Mae'r symiau wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Symiau wedi'u cynnwys yng nghostau staff** | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 4,471 | 8,098 |
| Credyd gwasanaeth yn y gorffennol | - | 52 |
| **Cyfanswm** | **4,471** | **8,150** |

| | **2023** | **022** |
|---|---|---|
| **Symiau wedi'u cynnwys yn y costau cyllid** | **£'000** | **£'000** |
| Cost llog net | (520) | (1,033) |
| **Cyfanswm** | **(520)** | **(1,033)** |

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

Mae'r symiau wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Swm wedi'i Gydnabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall** | | |
| Adenillion ar asedau cynllun pensiwn | (734) | 2,697 |
| Adenillion profiad yn codi o rwymedigaethau budd diffiniedig | 10,872 | - |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | (26,824) | (537) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (5,047) | (55,524) |
| **Swm wedi'i Gydnabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall** | **(21,733)** | **(53,364)** |
| | | |
| **Symudiad mewn rhwymedigaeth net wedi'i ddiffinio yn ystod y flwyddyn** | | |
| Rhwymedigaeth buddion net wedi'u diffinio yn y cynllun ar 1 Awst | (14,012) | (60,719) |
| Symudiad yn y flwyddyn; | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (4,471) | (8,098) |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | - | (52) |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr | 2,858 | 2,526 |
| Llog net ar yr (rhwymedigaeth) wedi'i ddiffinio | (520) | (1,033) |
| Enillion actiwaraidd | 21,733 | 53,364 |
| **Rhwymedigaeth buddion net wedi'u diffinio / (rhwymedigaeth) ar 31 Gorffennaf** | **5,588** | **(14,012)** |

**Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau**

| | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Newidiadau yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio** | | |
| Rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio ar ddechrau'r cyfnod | (103,085) | (149,777) |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (4,471) | (8,098) |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | - | (52) |
| Cost llog | (3,659) | (2,467) |
| Cyfraniad gan gyfranogwyr y cynllun | (943) | (847) |
| Buddion a dalwyd | 2,463 | 2,095 |
| Newidiadau yn nhybiaethau demograffig | 26,824 | 537 |
| Newidiadau yn nhybiaethau ariannol | 5,047 | 55,524 |
| Profiad Arall | (10,373) | - |
| **Rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio ar ddiwedd y cyfnod** | **(88,197)** | **(103,085)** |
| | | |
| **Gwerth teg o asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod** | 89,073 | 89,058 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 3,139 | 1,434 |
| Adenillion ar asedau'r cynllun | 734 | (2,697) |
| Cyfraniad gan gyflogwr | 2,858 | 2,526 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 943 | 847 |
| Profiadau eraill | (499) | - |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd | (2,463) | (2,095) |
| **Gwerth teg o asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod** | **93,785** | **89,073** |

**23. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i'r Llywodraethwyr neu ar eu rhan yn ystod y flwyddyn oedd £0. (2022 £0). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau allan o boced eraill a achoswyd wrth fynychu cyfarfodydd y Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn eu capasiti swyddogol.

Nid oes unrhyw Lywodraethwr wedi cael unrhyw gydnabyddiaeth ariannol nac wedi hawlio taliadau gan y Coleg yn ystod y flwyddyn (£0 yn 2022)

**24. SYMIAU A RENNIR FEL ASIANT**

| | Coleg 2023 £'000 | Coleg 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | 73 | 171 |
| Grantiau gan gyrff ariannu – cymorth dewisol i ddysgwyr | 1,221 | 1,002 |
| | **1,294** | **1,173** |
| Rhannwyd i fyfyrwyr | (1,205) | (1,072) |
| Costau gweinyddol | (35) | (28) |
| Balans ar 31 Gorffennaf, wedi'i gynnwys yn y credydwyr | **54** | **73** |

Mae grantiau gan gyrff ariannu ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant talu yn unig. Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw grantiau a threuliau cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y Datganiad ar Incwm Cynhwysfawr.